Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith teulu breifat

## Ymgynghoriad ar ddatrys anghydfodau cyfraith teulu breifat yn gynharach drwy gyfryngu teuluol

Mawrth 2023

CP 824

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith teulu breifat

## Ymgynghoriad ar ddatrys anghydfodau cyfraith teulu breifat yn gynharach drwy gyfryngu teuluol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Mawrth 2023

CP 824

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn privatefamilylawconsultation@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3604-9

E02769903 03/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau eildro

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Cyf ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Am yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd. Byddai o ddiddordeb neilltuol i ni glywed gan sefydliadau sy'n cynrychioli teuluoedd sy'n gwahanu, ymarferwyr cyfiawnder teulu, darparwyr gwasanaeth cyfryngu ac unigolion sydd wedi mynd drwy'r llysoedd teulu neu drwy broses cyfryngu. |
| **Hyd:** | O 23/03/23 i 15/06/23 |
| **Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am gael y papur mewn fformat arall) i:** | Y Tîm Polisi Cyfiawnder Teulu<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: privatefamilylawconsultation@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 15 Mehefin 2023 i:<br><br>Y Tîm Polisi Cyfiawnder Teulu<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: privatefamilylawconsultation@justice.gov.uk |
| **Ffyrdd ychwanegol i gyfrannu'ch barn:** | Cynhelir cyfres o gyfarfodydd i randdeiliaid hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer "Ymholiadau" uchod. |
| **Papur ymateb:** | Cyhoeddir ymateb i'r ymgynghoriad hwn maes o law yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys

**Rhagair** Error! Bookmark not defined.

**Cyflwyniad** Error! Bookmark not defined.

**Pennod 1 – Sut mae'r llysoedd teulu yn cael eu defnyddio 10**

Cefndir a'r sefyllfa bresennol **Error! Bookmark not defined.**

Cam-drin Domestig **Error! Bookmark not defined.**

Effaith y pandemig coronafeirws ar y Llysoedd Teulu 13

**Pennod 2 – Helpu Teuluoedd i Ddatrys Materion yn Gynharach 14**

Cefndir a'r sefyllfa bresennol **Error! Bookmark not defined.**

Gweithredu gan lywodraeth hyd yn hyn **Error! Bookmark not defined.**

Beth ellid delio ag ef drwy weithredu gan lywodraeth **Error! Bookmark not defined.**

Cwestiynau **Error! Bookmark not defined.**

**Pennod 3 – Cytuno mewn anghydfodau cyfraith teulu breifat drwy gyfryngu 22**

Cefndir a'r sefyllfa bresennol **Error! Bookmark not defined.**

Dysgu gwersi gan wledydd eraill **Error! Bookmark not defined.**

Gweithredu gan lywodraeth hyd yn hyn **Error! Bookmark not defined.**

Beth ellid delio ag ef drwy weithredu gan lywodraeth **Error! Bookmark not defined.**

Cwestiynau **Error! Bookmark not defined.**

**Pennod 4 – Atebolrwydd, Gorfodi a Ffioedd 34**

Cefndir a'r sefyllfa bresennol **Error! Bookmark not defined.**

Beth ellid delio ag ef drwy weithredu gan lywodraeth **Error! Bookmark not defined.**

Ffioedd **Error! Bookmark not defined.**

Cwestiynau **Error! Bookmark not defined.**

**Holiadur** Error! Bookmark not defined.

**Gwybodaeth amdanoch chi** Error! Bookmark not defined.

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** **45**
Cwynion neu sylwadau **Error! Bookmark not defined.**
Copïau ychwanegol **Error! Bookmark not defined.**
Cyhoeddi ymateb **Error! Bookmark not defined.**
Grwpiau cynrychiadol **Error! Bookmark not defined.**
Cyfrinachedd **Error! Bookmark not defined.**
**Asesiad o'r Effaith, Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg** **47**
Asesiad o'r effaith **Error! Bookmark not defined.**
Cydraddoldebau **Error! Bookmark not defined.**
Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg **Error! Bookmark not defined.**
**Egwyddorion ymgynghori** Error! Bookmark not defined.

# Rhagair

Nid yw gwahanu teuluol byth yn beth hawdd na syml, yn enwedig lle mae'n golygu gwneud trefniadau ariannol newydd neu rannu amser y plentyn rhwng y rhieni i gyd-fynd â'r newid mewn amgylchiadau.

Gyda golwg ar blant a materion ariannol, bydd rhai teuluoedd yn ei chael yn anodd cytuno ar beth ddylai ddigwydd nesaf, gan achosi straen i bawb ac yn enwedig i blant. Mae hyn yn niweidiol yn y tymor byr gan fod y gwrthdaro'n effeithio wedyn ar fywyd pob dydd, ond gall fod yn niweidiol hefyd i ddatblygiad plant yn y tymor hwy.

Bob blwyddyn mae tua 55,000 o deuluoedd yn dod i'r llysoedd teulu yn y diwedd i geisio delio â'u gwahaniaethau barn a datrys yr anghydfodau hyn, yn aml drwy achosion hir sy'n achosi straen dros gyfnod hir i bawb sy'n gysylltiedig.

Ar adeg pan fo ein llysoedd yn wynebu pwysau na welwyd ei fath o'r blaen yn dilyn y pandemig COVID-19, gall achosion bara am gyfnodau hirach byth – gan adael plant a theuluoedd mewn ansicrwydd am fwy o amser.

Mae'r Llywodraeth yn credu y gellid datrys mwy o anghydfodau heb fynd i'r ystafell llys, gan arbed teuluoedd rhag y straen diangen hwn ac arbed plant rhag pryder di-alw-amdano.

Yr eithriad amlwg i hyn fyddai achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig neu bryderon am amddiffyn plant – rhaid i'r achosion hyn fynd i'r llys. A thrwy ostwng nifer yr anghydfodau sy'n cyrraedd y llys yn gyffredinol, gallwn greu lle a rhyddhau amser er mwyn gallu gwrando'r achosion hyn yn gynt.

Gellir helpu i gyflawni hyn drwy ddarparu dewis arall i deuluoedd yn lle'r llys a fydd yn fforddiadwy, yn briodol ac yn effeithiol.

Mae cyfryngu yn gallu chwarae rhan lle mae awydd i ddod o hyd i dir cyffredin – nid yn unig rhwng rhieni neu gyplau sy'n gwahanu ond rhwng aelodau eraill o'r teulu hefyd. Gwelir hyn yn glir yn llwyddiant Cynllun Talebau Cyfryngu y Llywodraeth.

Mae'r cynllun hwn, sydd â chyfradd lwyddo ragorol o 69 y cant, wedi'i gwneud yn bosibl i fwy na 13,500 o deuluoedd sicrhau help gan gyfryngwyr a dod i gytundeb llawn neu rannol, heb yr angen i fynd drwy broses y llys a all fod yn un hir a gwrthwynebus.

Rydym yn benderfynol o adeiladu ar sail y llwyddiant hwnnw – i sicrhau, lle mae hynny'n ddiogel a phriodol, fod teuluoedd mewn anghydfodau cyfraith teulu breifat yn gwneud ymdrech resymol i gyfryngu a sicrhau atebion cyn gwneud cais i'r llys fel y dewis olaf.

Ac rydym am roi pŵer i farnwyr i ddal yn atebol y rheini sydd heb ymgymryd o ddifrif â chyfryngu, ac sy'n ymestyn achosion yn ddiangen drwy wrthod dod i setliadau rhesymol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch y ffordd orau i ni wneud hynny – fel y gallwn gynnig gwell amddiffyniad i deuluoedd, a phlant yn enwedig, rhag yr effeithiau niweidiol o anghydfodau hir.

Rwyf yn annog pawb sydd â diddordeb i roi eu barn. Bydd y cynigion mentrus hyn yn sicrhau dull llai gwrthwynebol o ddatrys anghydfodau teuluol – dull o weithredu sy'n rhoi lles plant yn gyntaf.

Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS, Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# Cyflwyniad

Pan fydd teuluoedd yn gwahanu neu'n profi newid mewn amgylchiadau, bydd angen yn aml iddynt wneud trefniadau ar gyfer y dyfodol, er enghraifft i gytuno ar bwy y bydd eu plant yn byw gyda nhw a faint o amser y byddant yn ei dreulio gyda'r rhiant neu berthynas arall. Mae'r rhan fwyaf o lawer o rieni'n parhau i ddod i gytundebau'n breifat ynghylch trefniadau ar gyfer eu plant. Fodd bynnag, mae mwy o rieni/gofalwyr[1] nag erioed o'r blaen yn troi at y llysoedd teulu[2] i wneud trefniadau plentyn.

Yn 2021 gwnaed 56,7544 o geisiadau am orchmynion trefniadau plentyn, o gymharu â 52,944 ddegawd yn gynharach yn 2011.[3] Hefyd cafwyd 48,666 o geisiadau am orchmynion ariannol (12,438 wedi'u hymladd a 36,228 heb eu hymladd), o gymharu â 46,348 yn 2011 (15,602 wedi'u herio a 30,746 heb eu herio). Yn yr un cyfnod, roedd llywodraeth wedi buddsoddi'n helaeth i gynyddu'r amser (a elwir yn ddiwrnodau eistedd) y mae barnwyr yn ei dreulio yn gwrando achosion teulu yn y llysoedd teulu. Cafwyd 54,569 o ddiwrnodau eistedd ar gyfer achosion cyfraith breifat ac achosion teulu eraill yn 2015, ac roedd hyn wedi cynyddu 52% i gyrraedd 82,991 yn 2021.[4]

Er gwaethaf y cynnydd mawr hwn, mae'n cymryd mwy o amser i gwblhau rhai achosion, yn bennaf oherwydd effaith y pandemig. Cymerwyd 26.1 wythnos ar gyfartaledd yn 2015 i gwblhau achos plant cyfraith breifat. Yn 2020 y ffigur oedd 32.3 wythnos, ond yn 2021 roedd wedi codi i 40.5 wythnos. Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael o fis Medi 2022 yn awgrymu ei bod yn cymryd 45 wythnos ar gyfartaledd ar hyn o bryd.[5] Rydym wedi cymryd nifer o gamau er mwyn i lysoedd allu delio â hyn. Cyflwynwyd technoleg newydd i ganiatáu i wrandawiadau gael eu cynnal o bell a threfnwyd i fwy o farnwyr weithio mewn llysoedd teulu nag erioed o'r blaen. Hefyd cyflwynwyd systemau digidol newydd, mwy effeithlon ar gyfer achosion rhwymedi ariannol.

---

1 Er bod 90% o geisiadau am drefniadau plant yn cael eu gwneud gan rieni, mae hawl gan eraill (fel neiniau a theidiau, modrabedd ac ewythrod, aelodau o'r teulu estynedig a gofalwyr) i wneud cais hefyd neu gallant ofyn am ganiatâd gan y llys i wneud hynny. Gellir cael amrywiadau hefyd o ran categorïau'r bobl sy'n gallu gwneud cais yn awtomatig, neu'n gallu gofyn am ganiatâd gan y llys i wneud cais, mewn cysylltiad â cheisiadau eraill ynghylch plant mewn cyfraith breifat. I ddibenion y ddogfen hon, rydym wedi defnyddio'r term 'rhieni/gofalwyr' i gyfeirio at bob oedolyn sy'n gwneud (y ceisydd) neu'n ymateb i (yr atebydd) cais mewn cyfraith breifat ynghylch trefniadau ar gyfer plant.

2 Mae cyfeiriadau at "lysoedd teulu" wedi'u bwriadu i olygu Adran Deulu yr Uchel Lys a'r llys teulu .

3 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

4 Civil justice statistics quarterly: January to March 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

5 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk) https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-july-to-september-2022

Mae hyn yn golygu, er bod mwy wedi'i fuddsoddi nag erioed o'r blaen, fod plant yn gorfod aros yn hirach ar gyfartaledd i'w hachosion llys gael eu penderfynu. Gall ansicrwydd o'r fath dros gyfnod hir fod yn niweidiol i blant, ac mae'r oedolion sy'n ceisio cytuno ar drefniadau yn gorfod profi ansicrwydd yn hirach.

Y llys yw'r opsiwn priodol i rai teuluoedd. Er enghraifft, lle mae ystyriaethau o ran cam-drin domestig neu fod angen gwneud cais ar frys,[6] neu lle mae teuluoedd wedi ceisio ond methu â dod i gytundeb mewn ffyrdd eraill. Mewn achosion o'r fath, gofyn i farnwr[7] benderfynu'r trefniadau, er y budd pennaf i unrhyw blant yn yr achos, yw'r ffordd briodol i weithredu.

Ar gyfer y teuluoedd hyn, mae'r Llywodraeth hon wedi cynllunio dull llai gwrthwynebol o drin ceisiadau cyfraith breifat ac wedi'i dreialu drwy lansio'r cynlluniau braenaru yn Dorset a Gogledd Cymru yn Chwefror 2022.[8]

Prif nodau'r cynllun treialu hwn yw atal ail drawma i oroeswyr cam-drin domestig, cryfhau llais y plentyn a chefnogi ymgysylltu a chyfranogi priodol mewn achosion. Mae'n symud oddi wrth y dull gwrthwynebol presennol a thuag at ddull sy'n rhoi mwy o bwys ar ymchwilio a datrys problemau ar sail nodweddion yr achos. Bydd hyn yn galw am borthgadw a chasglu gwybodaeth yn gynharach er mwyn gallu dyrannu achosion yn gynt a hyrwyddo'r ymgysylltu â phartïon yn hytrach na chynnal nifer o wrandawiadau.

Mae'r ymatebion cyntaf gan ardaloedd lleol wedi bod yn galonogol – mae'r llysoedd sy'n cymryd rhan yn parhau i ddatblygu cysylltiadau gweithio cadarnhaol â defnyddwyr llys a phartneriaid lleol allweddol fel cyfryngwyr, awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth lleol ym maes cam-drin domestig.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i sicrhau mynediad effeithiol i'r llysoedd teulu. Er hynny, rydym hefyd yn credu bod modd cael cydbwysedd lle bydd teuluoedd, lle y bo'n briodol, yn cael cymorth i ddatrys trefniadau plentyn a materion ariannol y tu allan i'r llys. Bydd hyn yn caniatáu i adnoddau'r llys gael eu cyfeirio at deuluoedd a phlant sydd â'r angen mwyaf am gyfraniad ac amddiffyniad y llys. Yn y pen draw, rydym am sicrhau bod yr holl deuluoedd yn gallu datrys materion yn gyflymach nag y maent ar hyn o bryd.

Rydym hefyd yn dymuno i oroeswyr cam-drin domestig deimlo'n hyderus bod amser ac adnoddau gan y llys i ganolbwyntio ar ddod i drefniant teg, sydd er budd pennaf i unrhyw blant sy'n gysylltiedig.

---

6 CB2 - Urgent and without notice hearings in relation to child arrangements (publishing.service.gov.uk)

7 Gyda chymorth gan weithwyr cymdeithasol cymwysedig yn cynghori'r llys.

8 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022) Pioneering approach in family courts to support domestic abuse victims better - GOV.UK (www.gov.uk)

Ceir tystiolaeth glir[9] bod gwrthdaro dros gyfnod hir rhwng rhieni sy'n gwahanu yn achosi niwed i lesiant a chyfleoedd bywyd plant. Mae ymchwil yn dangos bod profi gwrthdaro rhwng rhieni yn cael ei gysylltu â chyfraddau uwch o orbryder, iselder, ymosodedd, gelyniaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol/troseddoldeb, perfformiad academaidd is a chamddefnyddio sylweddau.[10] Yn aml, os defnyddir llysoedd teulu i ddatrys anghydfodau preifat sy'n cynnwys plant, gall hynny arwain at wrthdaro hir rhwng rhieni/gofalwyr a pheri bod plant yn profi cyfnodau hir pan nad oes trefniadau sefydlog neu addas ar waith.

Mae tystiolaeth hefyd nad yw cael gorchymyn gan y llys yn sicrhau ateb tymor hir i deuluoedd mewn llawer achos. Mae tua chwarter yr achosion plant cyfraith breifat yn dychwelyd i'r llysoedd teulu.[11] Mae hyn yn awgrymu, o ran helpu rhieni/gofalwyr i ddatrys materion a chanfod ffordd i fagu plant ar y cyd yn llwyddiannus ar ôl gwahanu, nad y peth gorau bob amser efallai yw gofyn i farnwr benderfynu ar yr hyn sydd er y budd pennaf i'r plentyn heb roi cynnig ar opsiynau eraill yn gyntaf.

Rydym am gynorthwyo'r teuluoedd hynny i ddod o hyd i ffyrdd i gyrraedd cytundebau hirsefydlog ymysg ei gilydd yn gynt, a heb yr angen i wneud cais i'r llys, weithiau ar nifer o achlysuron.

Rydym am ganolbwyntio ar gynnig cymorth cynharach i deuluoedd cyn i wrthdaro ymgaledu yn eu mysg. Dylid cael un man y gall teuluoedd droi ato a fydd yn darparu gwybodaeth fanwl a dibynadwy. Rydym am weld mwy o rieni'n cymryd rhan mewn rhaglenni magu plant ar y cyd, ac rydym am gyflwyno cyfryngu gorfodol mewn achosion priodol er mwyn sicrhau bod aelodau teuluoedd yn cymryd camau i geisio datrys materion. Credwn y bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i deuluoedd.

Yn achos rhai teuluoedd, dod i gytundeb eu hunain, un ai'n annibynnol neu gyda chymorth gweithiwr proffesiynol hyfforddedig, addas, fel cyfryngwr teuluol, yw'r ffordd orau yn aml i sicrhau ateb hirdymor sy'n dderbyniol, ac sydd er budd pennaf unrhyw blant.

Ers ei lansio ym Mawrth 2021, mae'r Cynllun Talebau Cyfryngu wedi cynorthwyo bron 13,500 o deuluoedd i ymgymryd â chyfryngu, hyd at 4 Ionawr 2023. Mae'r cynllun hwn yn rhoi taleb £500 i rieni/gofalwyr cymwys at gost y cyfryngu. Rydym wedi cynyddu'r cyllid yn 2022/23 fel y bydd 10,200 o deuluoedd yn ychwanegol yn gallu elwa o'r cynllun.

Rydym am sicrhau, pan fydd cyplau, rhieni neu ofalwyr eraill i blant wrth wahanu yn ceisio cytuno ar drefniadau i'w plant, eu bod yn gwneud ymdrech resymol i gyfryngu ac felly'n

[9] What works to enhance interparental relationships and improve outcomes for children? | Early Intervention Foundation (eif.org.uk) What works to enhance interparental relationships and improve outcomes for children? | Early Intervention Foundation (eif.org.uk)

[10] Tudalen 20 What works to enhance interparental relationships and improve outcomes for children? | Early Intervention Foundation (eif.org.uk)

[11] Tudalen 35, Nuffield Family Justice Observatory. Uncovering Private Family Law: Who's Coming to Court in England (nfjo_whos_coming_to_court_England_full_report_FINAL-1-.pdf (nuffieldfjo.org.uk))

datrys eu hanghydfod heb ddod i gysylltiad â'r llys, lle mae'n ddiogel ac yn briodol iddynt wneud hynny. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn bwriadu gwneud cyfryngu'n orfodol cyn gallu gwneud cais i'r llys yn y rhan fwyaf o achosion plant cyfraith breifat ac achosion rhwymedi ariannol sy'n cael eu herio (y rheini y mae gofyn cael Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu neu MIAM ar eu cyfer ar hyn o bryd). Mewn achosion plant priodol, rydym yn bwriadu talu holl gostau cyfryngu gorfodol. Mewn achosion rhwymedi ariannol priodol, rydym yn gofyn am farn ar y dull ariannu priodol sydd er budd pennaf i'r partïon eu hunain ac i'r trethdalwr. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ym Mhennod 3.

Rydym hefyd am sicrhau y bydd y teuluoedd hynny sydd ag angen cymorth ac ymyriad gan y llys teulu yn cael eu hadnabod yn fuan ac na fydd yr oedolion sy'n gysylltiedig, yn enwedig y rheini sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig neu'n profi problemau eraill (fel rhai amgylchiadau o ran amddiffyn plant neu lle mae angen cymryd camau brys i osgoi'r perygl o achosi niwed i'r plentyn), yn wynebu oedi diangen wrth geisio penderfyniad gan y llys. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn bwriadu cyflwyno esemptiadau rhag y gofyniad hwn i roi cynnig ar gyfryngu.

Ni ddylai'r llys gael ei ddefnyddio i'r perwyl o ymestyn neu gynyddu gwrthdaro. Er mwyn cefnogi hyn, bydd yn bwysig bod y system arfaethedig o gyfryngu gorfodol yn cael ei gweithredu'n effeithiol a'i chefnogi gan y llysoedd teulu, a bod y rheini nad ydynt yn gwneud ymdrech resymol i ddatrys yr anghydfod eu hunain drwy gyfryngu yn cael eu dal yn atebol.

Rydym am gymryd camau pendant i gynnal a gorfodi'r gofyniad i wneud ymdrech resymol i gyfryngu cyn gwneud cais i'r llys drwy sicrhau bod y dystiolaeth briodol yn cael ei darparu ar gyfer esemptiad rhag y gofyniad i roi cynnig ar gyfryngu. Rydym am sicrhau bod y llys yn cael pŵer yn gynnar ym mhroses y llys i gyfarwyddo partïon i wneud ymdrech resymol i gyfryngu (er enghraifft, os bydd amgylchiadau wedi newid neu os gwelir bod esemptiad wedi'i hawlio ar sail annilys).

Rydym am sicrhau bod partïon sydd heb wneud ymdrech resymol i gyfryngu, neu sy'n gweithredu mewn ffordd sy'n ymestyn achosion llys yn ddiangen yn cael eu dal yn atebol drwy dalu gorchmynion costau (gweler Pennod 4).

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch sut y gallwn gyflawni'r nodau hyn yn fwyaf effeithiol.

Ym Mhennod 1, rydym yn darparu gwybodaeth ynghylch sut mae'r llysoedd teulu yn cael eu defnyddio mewn anghydfodau cyfraith teulu breifat, a sut mae hyn wedi newid dros amser. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am y ffordd y mae'r Llywodraeth yn delio â cham-drin domestig a'r camau rydym wedi'u cymryd yn ddiweddar i wella proses y llys ar gyfer y rheini sydd â'r angen mwyaf amdani.

Ym Mhennod 2, rydym yn trafod y ffynonellau cymorth sydd ar gael i deuluoedd wrth iddynt geisio gwneud trefniadau plentyn a threfniadau ariannol, yn enwedig adnoddau ar-lein a rhaglenni magu plant ar y cyd. Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut i wella'r adnoddau hyn a'i gwneud yn haws cael gafael arnynt. Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch a ddylem ei gwneud yn orfodol bod rhieni/gofalwyr addas yn cymryd rhan mewn rhaglen magu plant ar y cyd a gynigir gan Cafcass neu Cafcass Cymru cyn y gellir gwneud cais i'r llys ynghylch trefniadau plentyn.

Ym Mhennod 3, rydym yn amlinellu ein cynnig ar gyfer system cyfryngu gorfodol cyn y gellir cyflwyno cais ar gyfer anghydfod cyfraith teulu breifat yn ymwneud â phlant neu rwymedi ariannol. Rydym hefyd yn disgrifio'r cynigion ariannu ar gyfer cyfryngu gorfodol mewn achosion plant ac achosion rhwymedi ariannol, yn ogystal â'r esemptiadau arfaethedig rhag y gofyniad i gyfryngu, a sut byddai'r broses hon yn gallu gweithio yn ymarferol. Rydym yn trafod rheoleiddio ac achredu yn y farchnad darparwyr cyfryngu ac yn gofyn am farn ynghylch sut y gallwn helpu'r farchnad i gwrdd â galw cynyddol.

Yn olaf, ym Mhennod 4 rydym yn amlinellu sut y gellid gorfodi'r mesurau hyn a sut bydd pobl yn cael eu dal yn atebol am beidio â gwneud ymdrech resymol i ddatrys anghydfodau drwy gyfryngu neu fel arall y tu allan i'r llys. Mae hyn yn cynnwys gofyn am farn ynghylch y defnydd o orchmynion costau. Rydym hefyd yn trafod strwythur presennol y ffioedd llys ar gyfer achosion cyfraith breifat, a'n bwriad i ystyried y rhan y mae ffioedd yn ei chwarae wrth gynnal mynediad at gyfiawnder, creu incwm a sicrhau'r canlyniadau gorau i blant (yn cynnwys canlyniadau y tu allan i'r llys).

# Pennod 1 – Sut mae'r llysoedd teulu yn cael eu defnyddio

## Cefndir a'r sefyllfa bresennol

Dros y deng mlynedd diwethaf, cafwyd newid yn y ffordd o ddefnyddio llysoedd teulu, ac yn y materion y mae teuluoedd yn dod i'r llys i'w datrys. Mae data yn dangos:

- **Bod 2.3 miliwn o deuluoedd sydd wedi gwahanu ym Mhrydain Fawr a bod 3.6 miliwn o blant yn y teuluoedd sydd wedi gwahanu yn 2021.**[12]
- **Bod y rhan fwyaf o'r rhieni sy'n gwahanu yn datrys eu trefniadau plentyn heb ddod i'r llys.** Mae llai na 0.75% o'r holl deuluoedd sydd â phlant dibynnol yn Lloegr (yn cynnwys teuluoedd wedi gwahanu a theuluoedd heb wahanu) yn gwneud cais cyfraith breifat bob blwyddyn, sydd ychydig yn is nag yng Nghymru (llai nag 1%).[13]
- **Bod cynnydd wedi digwydd dros amser yn nifer y ceisiadau am drefniadau plentyn sy'n dod i'r llysoedd teulu. Yn 2021 roedd 56,754 o geisiadau newydd, o gymharu â 52,944 yn 2011.** Mae hyn yn gynnydd o 7%.[14]
- **O ran achosion rhwymedi ariannol, bod nifer y ceisiadau i'r llys wedi amrywio dros amser.** Yn 2011 cafwyd 46,348 o geisiadau (15,602 a gafwyd eu herio a 30,746 na heriwyd). Yn 2021, cafwyd 48,666 o geisiadau (12,438 a gafwyd eu herio a 36,228 na heriwyd).[15] Dyma gynnydd o 5% yng nghyfanswm y ceisiadau.
- **Ei bod yn cymryd mwy o amser bellach i gwblhau achosion.** Mae'n cymryd 40.5 wythnos ar gyfartaledd i gwblhau achos plant cyfraith breifat. Mae hyn wedi cynyddu o 26.1 wythnos yn 2011.[16]
- Bod nifer yr achosion cyfraith breifat sydd heb eu gwrando wedi sefydlogi ar tua 53,000.[17]
- **Bod nifer mawr o deuluoedd sy'n dod i'r llys i wneud trefniadau plentyn yn dychwelyd i'r llys.** Mae amcangyfrifon o 2016/17 yn awgrymu bod tua chwarter y teuluoedd a gafodd orchymyn trefniadau plentyn wedi dychwelyd i'r llysoedd teulu.[18]

---

12 Separated families statistics: April 2014 to March 2021 (experimental) - GOV.UK (www.gov.uk)

13 Nuffield Family Justice Observatory. Uncovering Private Family Law: Who's Coming to Court in England (nfjo_whos_coming_to_court_England_full_report_FINAL-1-.pdf (nuffieldfjo.org.uk))

14 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

15 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

16 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

17 HMCTS Management Information - December 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

18 O'r 40,599 o achosion cyfraith breifat y gweithiodd Cafcass arnynt yn 2016-17, roedd 12,376 yn rhai a oedd wedi dychwelyd i'r llys.

Roedd 63% o'r ceisiadau ar ôl dychwelyd wedi cael eu gwneud o fewn dwy flynedd yn unig ar ôl gorffen yr achos blaenorol.[19]

- **Bod nifer y diwrnodau eistedd (yr amser y mae barnwyr yn ei dreulio yn gwrando achosion yn y llys) ar gyfer llysoedd teulu wedi cynyddu'n gyson.** Yn 2015, roedd 54,569 o ddiwrnodau eistedd ar gyfer achosion cyfraith breifat. Roedd hyn wedi codi i 82,991 yn 2021.[20]
- **Pan fydd rhieni/gofalwyr yn dod i Gyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM),[21] eu bod yn mynd ymlaen i gyfryngu yn y rhan fwyaf o achosion, ond nad yw digon o rieni/gofalwyr yn dod i'r cyfarfodydd hyn.** Yn 2020/21, dim ond 35% o geiswyr mewn achosion o fath perthnasol a ddaeth i MIAM cyn dod i'r llys. Dim ond 6% o'r rheini a oedd heb ddod i MIAM a gafodd dystysgrif gan gyfryngwr teuluol cymwys yn datgan eu bod yn anaddas ar gyfer cyfryngu. Roedd 60% o geiswyr wedi datgan mai esemptiad rhag MIAM[22] oedd un rheswm dros beidio â chymryd rhan. Pan yw'r ddau riant/gofalwr yn gweld cyfryngwr teuluol ar gyfer MIAM, mae 73% ohonynt yn mynd ymlaen i gyfryngu.[23]
- **Bod cyfryngu mewn anghydfodau ar drefniadau plentyn yn gallu gweithio hyd yn oed i deuluoedd nad oeddent yn ymwybodol o gyfryngu o'r blaen.** Mae 65% o deuluoedd sydd wedi mynychu sesiynau cyfryngu erbyn hyn drwy'r Cynllun Talebau Cyfryngu wedi dod i gytundeb llawn neu rannol heb ddod i'r llysoedd teulu, ac roedd 3% ychwanegol a ddaeth i'r llys wedyn dim ond i sicrhau gorchymyn cydsynio i ffurfioli eu cytundeb.[24] Mae hyn yn weddol gyson â'r cyfraddau cytuno a welir mewn cyfryngu sy'n cael ei ariannu drwy gymorth cyfreithiol.[25]
- **Er bod nifer mawr o deuluoedd yn gallu datrys materion drwy gyfryngu a heb gymorth y llys, fod cnewyllyn o deuluoedd hefyd sydd ag anghenion mwy cymhleth, yn ymwneud yn aml ag unigolion sy'n agored i niwed.** Ym mis Mehefin 2020 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adroddiad gan banel arbenigol o'r enw "Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat".[26] Roedd

---

19 Halliday et al. (2017) Tudalen 8, *Private law cases that return to court: a Cafcass study* private_law_cases_that_return_to_court_-_cafcass_research_november_2017.pdf. Specific focus looking at the oldest child on a child's case.

20 Civil justice statistics quarterly: January to March 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

21 Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) yw cyfarfod a gynhelir er mwyn gallu darparu gwybodaeth am gyfryngu mewn anghydfodau teuluol y gellir gwneud cais i'r llys yn eu cylch; ffyrdd i ddatrys yr anghydfodau hyn gan y llys ac addasrwydd cyfryngu; neu unrhyw ddull arall o'r fath i ddatrys anghydfodau, er mwyn ceisio datrys yr anghydfod. (Adran 10(3) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014).

22 Family Court Statistics Quarterly: October to December 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

23 Family-Mediation-Survey-Autumn-2019-Results.pdf (familymediationcouncil.org.uk)

24 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022) Mediation to help thousands more families avoid costly legal battles - GOV.UK (www.gov.uk)

25 Legal aid statistics England and Wales bulletin Apr to Jun 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

26 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/924548/assessing-risk-harm-children-parents-private-law-children-cases-response-cym.pdf

y grŵp hwn ("y Panel Niwed") wedi adrodd bod 50%–60% o deuluoedd sy'n dod i'r llys yn rhai sydd â honiadau a/neu dystiolaeth arall o gam-drin domestig.

Mae'r data yn dangos bod nifer mawr o deuluoedd lle nad yw'r honiadau hyn yn codi, sy'n dod i'r llysoedd teulu ar hyn o bryd, a fyddai'n gallu elwa o geisio dod i gytundeb drwy gyfryngu. Mae angen i'r system cyfiawnder teulu ganolbwyntio i fwy o raddau ar y teuluoedd hynny sydd â'r mwyaf o angen am gael eu hamddiffyn ganddi – pobl sy'n agored i niwed, yn cynnwys plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr cam-drin, a theuluoedd sydd â phryderon o ran amddiffyn plant. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o sicrhau bod y llysoedd teulu yn gweithio'n effeithiol dros y bobl hyn ac yn parhau i'w hamddiffyn.

## Cam-drin Domestig

Mae gwella ein hymateb i gam-drin domestig yn parhau'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Yn y llysoedd teulu, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau gwell amddiffyniad i oroeswyr cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin. Gwyddom fod tua hanner y teuluoedd sy'n dod i'r llysoedd teulu i gael penderfyniad ar drefniadau plentyn yn rhai sydd wedi profi cam-drin domestig; dyna pam mae mor bwysig gwella'r ffordd o drin goroeswyr gan y llysoedd teulu. Mae'r cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yn rhai a ddylai gael effaith gadarnhaol ar y ffordd o drin goroeswyr cam-drin domestig gan y bydd mwy o amser ar gael gan y llys i asesu a datrys eu ceisiadau yn gyflymach.

Yn 2021 pasiwyd Deddf Cam-drin Domestig 2021[27] gan y Llywodraeth hon gan sicrhau trobwynt yn y ffordd o ystyried cam-drin domestig ac yn y modd y mae dioddefwyr a goroeswyr yn cymryd rhan mewn achosion llys. Mae'r Ddeddf yn creu diffiniad statudol o gam-drin domestig am y tro cyntaf er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth priodol o gam-drin domestig a'i fod yn cael ei ystyried yn annerbyniol a'i herio'n benderfynol ar draws asiantaethau statudol ac yn agweddau'r cyhoedd. Mae'r diffiniad o gam-drin domestig yn awr yn cynnwys pob math o ymddygiad camdriniol, gan gynnwys ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, cam-drin economaidd, cam-drin seicolegol ac emosiynol, cam-drin corfforol neu rywiol ac ymddygiad treisgar neu fygythiol.

Mae achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig yn gallu bod yn fwy cymhleth o lawer nag anghydfodau cyfraith breifat eraill. Os yw achosion yn ymwneud â cham-drin domestig neu os oes perygl o achosi niwed i'r plentyn fel arall, mae'n bosibl hefyd y bydd angen cynnwys asiantaethau eraill, fel Cafcass a Cafcass Cymru, ac y bydd angen gwneud rhagor o ran casglu tystiolaeth ac adrodd i'r llys, a gall hyn ychwanegu at yr amser y mae'n ei gymryd i symud yr achos yn ei flaen.

Yn yr adroddiad "Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat" a gyhoeddwyd yn 2020, cafwyd bod teuluoedd sydd wedi profi cam-drin domestig

[27] Deddf Cam-drin Domestig 2021 (legislation.gov.uk)

yn aml yn rhai lle mae lefel uchel o wrthdaro a bod diffyg cydbwysedd pŵer yn y berthynas yn golygu ei bod yn annhebygol y byddant yn addas i gymryd rhan mewn cyfryngu neu ddulliau eraill o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen cynnal gwrandawiadau ychwanegol i ddeall holl ffeithiau'r hyn a ddigwyddodd o fewn y teulu, a chael gwybod a oedd cam-drin domestig honedig, neu fathau eraill o niwed, wedi digwydd.[28]

## Effaith y pandemig coronafeirws ar y Llysoedd Teulu

Fel nifer o wasanaethau cyhoeddus eraill, mae'r llysoedd teulu wedi teimlo effaith y pandemig coronafeirws. Yn ystod y pandemig, roedd y cyfnod cyfartalog ar gyfer cwblhau achos plant cyfraith breifat wedi cynyddu o 32.3 wythnos yn 2020 i 40.5 wythnos yn 2021.[29] O fis Medi 2022 mae bellach yn cymryd 45 wythnos ar gyfartaledd.[30] Gwaethygwyd yr effaith hon oherwydd y galw mawr parhaus ar y llysoedd teulu, gan fod 55,642 o achosion cyfraith breifat wedi dechrau yn 2020, a 54,649 yn 2021.[31]

Nifer yr achosion plant cyfraith breifat lle cafwyd penderfyniad terfynol oedd 43,778 yn 2021, o gymharu â 37,321 yn 2020[32] – nifer yr achosion yn y system sydd heb eu cwblhau eto yw tua 53,000.[33] Mae'r Llywodraeth wedi neilltuo adnoddau sylweddol i'r llysoedd teulu i helpu i ddelio â'r llwyth achosion cyfnewidiol a mwy cymhleth. Ym mlwyddyn ariannol 2020/21, buddsoddwyd £250 miliwn gennym at ymadfer yn y llysoedd ac roedd hyn yn cynnwys £76 miliwn i gynyddu ein gallu i wrando achosion yn y llysoedd sifil a theulu, ac mewn tribiwnlysoedd. Rhwng 2021 a 2024 rydym yn buddsoddi £324 miliwn ychwanegol i gynyddu'r gallu yn awdurdodaethau'r llysoedd sifil a theulu a'r tribiwnlysoedd er mwyn parhau i fynd i'r afael ag ôl-groniadau a gwella amseroldeb.[34]

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod angen cymryd camau i gynorthwyo teuluoedd i ddod i gytundeb ar eu trefniadau plentyn yn gynharach a heb ymyriad gan y llys lle mae hyn yn ddiogel ac yn briodol. Wrth wneud hyn, byddwn yn galluogi'r llysoedd teulu i ganolbwyntio'n well ar y teuluoedd hynny sydd â'r mwyaf o angen am eu cymorth a'u hymyriad.

---

28 Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat, paragraff 7.4.1 Cyfryngu a Chymodi

29 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

30 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

31 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

32 Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

33 HMCTS Management Information - December 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

34 Largest funding increase in more than a decade for justice system - GOV.UK (www.gov.uk)

# Pennod 2 – Helpu Teuluoedd i Ddatrys Materion yn Gynharach

Yn y bennod hon, rydym yn gofyn am farn ynghylch:

a. **Cydweithio i gynorthwyo teuluoedd sy'n gwahanu**
   Pa adnoddau, canllawiau neu gymorth y gall y llywodraeth a'r sector eu darparu i helpu teuluoedd sy'n gwahanu i gytuno ar drefniadau plentyn a threfniadau ariannol heb droi at y llys, a sut y gallwn greu ffordd haws i deuluoedd gael gafael ar yr adnoddau hyn.
b. **Rhaglenni magu ar y cyd**
   A ddylid cyflwyno gofyniad gorfodol am gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd i rieni/gofalwyr sydd mewn anghydfodau yn ymwneud â threfniadau plentyn neu faterion eraill yn ymwneud â phlant mewn cyfraith teulu breifat, os credir bod hynny'n addas. Gallai hyn ddigwydd ar ôl atgyfeirio rhywun gan gyfryngwr mewn cyfarfod rhagarweiniol ond cyn mynychu sesiynau cyfryngu gorfodol (sydd wedi'u trafod ym Mhennod 3).

## Cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd a'u helpu i ddelio â heriau a datrys anghydfodau mor gynnar â phosibl. Pan ddaw perthnasoedd i ben, mae gelyniaeth a gwrthdaro parhaus yn aml yn gallu amharu ar les aelodau o'r teulu, yn enwedig plant. Pan fydd rhieni wedi gwneud y penderfyniad i wahanu, sydd yn aml yn beth anodd, y ffordd orau fel arfer i sicrhau'r budd pennaf i'r plant yw lleihau'r gwrthdaro a chynorthwyo eu rhieni i gydweithredu. Mewn achosion addas, byddai ceisio datrys anghydfodau'n gynnar yn gallu helpu rhieni i ddod i gytundebau'n gynharach, am nad yw gwrthdaro rhyngddynt wedi caledu eto.[35]

Mae ymchwil yn awgrymu bod diffyg gwybodaeth i rieni am yr opsiynau sydd ar gael iddynt cyn dod i'r llys. Mewn adroddiad gan Grŵp Atebion Teulu Llywydd yr Adran Deulu ym mis Tachwedd 2020, cafwyd nad oes ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth glir ar gael i rieni am yr opsiynau sydd ganddynt a nodwyd bod yr adroddiad Creating Paths to Family Justice a'r adroddiad Varying Paths to Justice wedi canfod bod rhieni'n troi at y rhyngrwyd i gael gwybodaeth. Yn ôl adroddiad y Grŵp Atebion Teulu, mae'n sicr bod hyn yn digwydd yn amlach ers y pandemig COVID-19.[36]

[35] (Thomas et al. 2016) a Qu (2019) a gafodd fod defnydd 'hwyr' o ddulliau datrys anghydfodau yn cael ei gysylltu â chysylltiadau gwaeth rhwng rhieni a llai o debygolrwydd o setlo.

[36] Paragraff 157 - https://www.judiciary.uk/publications/what-about-me-reframing-support-for-families-following-parental-separation/

> “very often [when parents separate] it’s just been, "oh I'm sorry to hear that"... We have never really been able to say, "have you considered mediation? …Here's a leaflet that might be of some use to you". We have not had that tool in our toolkit.”[37] Adroddiad y Grŵp Atebion Teulu (Barlow, A. ac Ewing, J. 2020)

Yn y Galwad am Dystiolaeth ar Ddatrys Anghydfodau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Awst 2021,[38] nodwyd bod gwell defnydd o dechnoleg a phrosesau ar-lein yn un ffordd i roi mwy o allu i gael mynediad at ddulliau datrys anghydfod, i ddarparu man diogel i’r rheini sydd mewn perthnasoedd camdriniol, i ymateb i anghenion y rheini sydd am gymryd rhan drwy ddulliau digidol yn unig ac i helpu i sicrhau canlyniadau tecach. Fodd bynnag, roedd y galwad am dystiolaeth hefyd wedi dangos y pwysigrwydd o gynnig dewis o sianeli cyfathrebu gan ddarparwyr dulliau datrys anghydfod, yn cynnwys dulliau traddodiadol fel cyfryngu dros y ffôn a wyneb yn wyneb er mwyn rhoi mynediad i’w gwasanaethau i bawb. Bydd o ddiddordeb i ni ganfod sut y gallwn wella’r wybodaeth sydd ar gael i deuluoedd sy’n gwahanu i’w helpu i ddelio â’r gwrthdaro yn gynharach.

Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch sut y gallwn gyrraedd teuluoedd sy’n dewis peidio â defnyddio adnoddau ar-lein neu sydd heb fynediad atynt, drwy wasanaethau mewn lleoliadau penodol.

## Gweithredu gan lywodraeth hyd yn hyn

Mae nifer o gynlluniau ac adnoddau ar gael eisoes i gynorthwyo rhieni/gofalwyr a chyplau heb blant sy’n gwahanu:

**Rhaglenni magu ar y cyd**
Mae dwy brif raglen yng Nghymru a Lloegr eisoes sydd yn helpu rhieni sy’n gwahanu i ganolbwyntio ar y budd pennaf i’w plant ac i fagu ar y cyd yn fwy effeithiol. Mae’r Rhaglen Wybodaeth i Rieni Sydd Wedi Gwahanu (SPIP)[39] ar gael yn Lloegr ac mae’r Rhaglen Gweithio Gyda’n Gilydd er mwyn Plant (WT4C)[40] ar gael yng Nghymru. Darperir y rhaglenni hyn gan Cafcass (Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd) a Cafcass Cymru yn y drefn honno ac maent yn darparu cymorth a gwybodaeth am fagu ar y cyd ar ôl gwahanu. Nod penodol y rhaglenni hyn yw helpu rhieni i ddeall yr effaith y mae gwahanu a gwrthdaro rhwng rhieni yn ei chael ar blant. Mae’r cyrsiau’n annog rhieni i gymryd camau drostyn nhw eu hunain, a gall hynny gynnwys

---

37 Barlow, A. ac Ewing, J. (2020). *An Evaluation of ‘Mediation in Mind’: Final Report – June 2020*. (Exeter: University of Exeter) – Family Solutions Group Report

38 Dispute Resolution in England and Wales - Call for Evidence (justice.gov.uk)

39 Separated Parents Information Programme - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service

40 Working Together for Children (WT4C) (gov.wales)

datblygu cytundebau heb ymyriad gan y llys. Mae'r cyrsiau hefyd yn tynnu sylw at ffyrdd i rieni gael cynhorthwy y tu allan i'r llys.

Mae'r Rhaglen Wybodaeth i Rieni Sydd Wedi Gwahanu (SPIP) i gael ei disodli gan gwrs newydd Cynllunio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant, a gaiff ei lansio yn Ebrill 2023. Mae'r cwrs newydd i rieni mewn achosion llys Cyfraith Breifat wedi cael ei gynllunio ar y cyd â phlant a rhieni yn dilyn adolygiad o ymchwil a thystiolaeth. Mae Cafcass wedi meddwl yn greadigol am wahanol ffyrdd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn fwy effeithiol, gan fabwysiadu model hybrid lle mae rhieni'n cwblhau cwrs ar-lein ac wedyn yn cymryd rhan mewn gweithdy grŵp wedi'i hwyluso. Mae Cynllunio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant yn rhoi mwy o amser i rieni i wneud defnydd o wahanol fathau o wybodaeth a deunyddiau perthnasol ac yn darparu cyfle i rieni fyfyrio ar yr effaith y mae gwahanu a gwrthdaro yn gallu ei chael ar blant.

Mae cyrsiau SPIP a WT4C yn cael eu defnyddio eisoes gan nifer helaeth o rieni/gofalwyr. Yn 2020/21, ar ddechrau'r pandemig COVID, roedd 16,160 o rieni/gofalwyr wedi cwblhau cwrs SPIP, a'r nifer wedi cynyddu i 20,405 yn 2021/22.[41] Mae bron hanner yr holl gyrsiau SPIP yn rhai sydd wedi'u gorchymyn gan y llys yn y gwrandawiad terfynol. Credwn fod hyn yn digwydd yn rhy hwyr yn yr anghydfod, gan mai dim ond ar ddiwedd y broses gyfreithiol y teimlir y budd o gymryd rhan yn y rhaglen yn yr achosion hyn.

Rydym yn ymwybodol bod cyrsiau SPIP yn gallu helpu rhieni/gofalwyr i ddeall nad y llys yw'r unig ddewis ar gyfer datrys eu trefniadau plentyn. Roedd y rhaglen Cymorth i Wneud Trefniadau Plentyn (SwMCA) wedi cynnal cynllun gwerthuso peilot chwe mis o hyd i weithio gyda'r grŵp hwn o rieni er mwyn deall a fyddai'r cynnig o wasanaethau datrys anghydfod yn eu helpu i gytuno ar drefniadau heb fod angen dod i wrandawiad llys. Roedd yr adroddiad hwn yn dangos bod rhieni/gofalwyr a gymerodd ran mewn cwrs SPIP yn ogystal â chyfryngu yn fwy tebygol o ddod i gytundeb llawn, a gwneud gorchymyn cydsynio neu dynnu'n ôl eu cais o'r llys. Roedd 78% o rieni/gofalwyr a gymerodd ran mewn cwrs SPIP a chyfryngu wedi gwneud cais wedyn am orchymyn cydsynio neu wedi gwneud cais i dynnu'n ôl eu hachos llys.

[41] Cafcass publishes Annual Report and Accounts for 2021-22 - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service

**Astudiaeth Achos 4 o’r Cynllun Peilot Cymorth i Wneud Trefniadau Plentyn:**

Roedd y ddau barti wedi cymryd rhan mewn cyfryngu a chwrs SPIP. Roedd y rhain wedi’u helpu i ddod i gytundeb llawn a thynnwyd eu cais yn ôl. Roedd yr atebydd wedi cael bod y profiad o gymryd rhan yn y cynllun peilot yn un cadarnhaol. Dywedodd fod y cynllun peilot wedi’i helpu i siarad â’r rhiant arall mewn ffordd wahanol; dywedodd eu bod nhw bellach yn rhoi amser i’w gilydd pan fydd un ohonynt yn gofyn am rywbeth, yn lle ymateb mewn ffordd ymosodol yn syth. “Dyw’r elfen o frifo neu ddicter ddim yn bodoli bellach, mae’n golygu rhoi ychydig o amser i wneud pethau”. Mae’r trefniadau wedi gweithio ers gwneud y cytundeb hefyd. “Os bydd rhywbeth yn codi, mae gennyn ni gynllun A a chynllun B".

Roedd y Cynghorydd Llys Teulu [un o weithwyr cymdeithasol Cafcass] yn siarad yn gadarnhaol iawn am effaith y cynllun peilot ar y rhieni hyn a’u plant. Roedden nhw wedi gwneud eu cytundeb mewn sesiwn cyfryngu. Doedd dim angen cynnal yr FHDRA (Gwrandawiad Cyntaf) felly roedd hynny’n arbed amser i’r llys.

Mae **Canolfannau Teuluol** yn cynnig ffordd i gydgysylltu’n lleol er mwyn gwella mynediad at wasanaethau, gwella’r cysylltiadau rhwng teuluoedd, gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau, a darparwyr, a rhoi blaenoriaeth i gryfhau’r cysylltiadau sy’n ein cynnal ar hyd oes. Maent yn dod â gwasanaethau at ei gilydd i blant o bob oed, gyda’r cynnig rhagorol o wasanaethau Dechrau am Oes yn elfen ganolog. Mae’r Llywodraeth yn buddsoddi tua £300 miliwn i drawsnewid gwasanaethau ‘Dechrau am Oes’ a chymorth i deuluoedd yn 75 o awdurdodau lleol yr haen uwch ledled Lloegr. Bydd hyn yn ariannu rhwydwaith o ganolfannau teuluol ac yn ychwanegu at y gronfa drawsnewid o £12 miliwn i agor canolfannau teuluol mewn 12 o awdurdodau lleol ychwanegol yn Lloegr. Mae’r Adran Addysg a’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar y gwasanaethau y disgwylir i’r canolfannau teuluol gynnig mynediad atynt, a hynny’n cynnwys helpu teuluoedd i gael mynediad at y cymorth sydd ar gael eisoes ar gyfer lleihau gwrthdaro rhwng rhieni ac ar gyfer rhieni sy’n gwahanu neu sydd wedi gwahanu. Byddai hyn yn gallu cynnwys, er enghraifft, rhoi rhieni mewn cysylltiad â gwasanaeth cyfryngu os yw ar gael.

Mae’r **Rhaglen Lleihau Gwrthdaro Rhwng Rhieni**[42] yn rhaglen sy’n cael ei rhedeg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sydd â’r nod o gynorthwyo rhieni sydd heb brofi cam-drin domestig i leihau gwrthdaro yn eu teuluoedd. Mae hefyd yn ceisio gwella canlyniadau i blant ac mae’n canolbwyntio ar deuluoedd difreintiedig. Mae DWP yn parhau i roi prawf ar effeithiolrwydd y gwahanol fathau o ymyriadau yn ardaloedd 31 o

42 Reducing Parental Conflict programme and resources - GOV.UK (www.gov.uk)

awdurdodau lleol ledled Lloegr, a thrwy'r gwaith hwn mae'r llywodraeth wedi cynorthwyo mwy na 4,400 o rieni er 2019, ac roedd mwy na 2,200 o rieni wedi cwblhau ymyriad Lleihau Gwrthdaro Rhwng Rhieni erbyn Mawrth 2022.

Yn yr adroddiad diweddaraf ar weithrediad y rhaglen (a gyhoeddwyd yn Ebrill 2022),[43] dangoswyd bod y rhan fwyaf o rieni yn teimlo, ar ben yr effaith arnyn nhw eu hunain, eu bod wedi gweld newid er gwell yn eu plant ac yn ymddygiad eu plant. Mae DWP yn neilltuo hyd at £33 miliwn yn ystod y cyfnod 2022–25, a hyd at £11 miliwn yn 2022/3, i barhau â'r cynnydd hwn.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn cefnogi gwasanaethau eraill sy'n darparu gwahanol fathau o gefnogaeth a chyngor cyfreithiol cynnar i bobl sydd ag angen cytuno ar drefniadau plant a materion eraill yn ymwneud â phlant ar ôl gwahanu:

- Ers 2014, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi buddsoddi mwy na £25 miliwn i gynorthwyo ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn y llysoedd sifil a'r llysoedd teulu. Mae hyn yn cynnwys cyllid o fwy na £7 miliwn o 2020–2022 i gefnogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyngor cyfreithiol arbenigol yn dilyn dechrau'r pandemig COVID-19. Roedd y cyllid hwn wedi galluogi sefydliadau i barhau i weithredu ac yn swm a oedd yn cydnabod effaith y pandemig ar y sector.
- **FLOWS (Finding Legal Options for Women Survivors):**[44] Er 2020/21, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu cyllid o £800 mil y flwyddyn i FLOWS ar gyfer darparu cefnogaeth gyfreithiol yn rhad ac am ddim i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n dymuno gwneud cais am orchymyn amddiffyn brys gan y llysoedd. Defnyddir y cyllid i ddarparu llinell gymorth a gwasanaeth e-bost i ddioddefwyr cam-drin domestig, lle gellir eu hatgyfeirio at gyfreithiwr cymorth cyfreithiol i'w helpu i wneud eu cais neu gallant gael cyngor am ddim yn uniongyrchol gan dîm cyfreithiol FLOWS os nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Mae FLOWS yn defnyddio'r cyllid hefyd i ddatblygu ei arlwy digidol ymhellach, yn cynnwys yr offeryn CourtNav sy'n ceisio ei gwneud yn haws i ddioddefwyr sydd heb gynrychiolaeth i wneud cais am orchymyn rhag molestu. Yn ogystal â hyn, mae nifer o sefydliadau elusennol, nid-er-elw a thrydydd sector sy'n cynorthwyo grwpiau penodol o ddefnyddwyr y llysoedd teulu, fel dioddefwyr cam-drin domestig, mamau, tadau a theuluoedd mudwyr neu ffoaduriaid.

## Beth ellid delio ag ef drwy weithredu gan lywodraeth

Rydym am wella'r cymorth a gwybodaeth a ddarparwn i rieni/gofalwyr ymlaen llaw a thrwy gydol proses y llys.

---

43 https://www.gov.uk/government/publications/reducing-parental-conflict-programme-evaluation-third-report-on-implementation/reducing-parental-conflict-programme-evaluation-third-report-on-implementation

44 https://www.flows.org.uk/

Yn gyntaf, rydym am wella a symleiddio'r cymorth a gwybodaeth sydd ar gael i'r rheini sy'n ymwneud â materion cyfraith teulu breifat. Rydym yn cydnabod bod rhieni/gofalwyr yn wynebu her yn aml o ran gwybod ble i fynd i gael gwybodaeth pan fyddant yn gwahanu. Rydym am wella'r wybodaeth sydd ar gael i rieni/gofalwyr ar y cam cynharaf posibl, i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt, cyn gwneud cais i'r llys.

I wneud hyn, rydym wedi ymrwymo i ymchwilio a datblygu offer gwell i helpu teuluoedd ar eu siwrnai ar ôl gwahanu, yn cynnwys offeryn ar-lein i wella mynediad at wybodaeth ddiduedd a fydd ar gael yn rhwydd. Byddai'r offeryn ar-lein hwn yn ceisio darparu gwybodaeth a llywio rhieni a gofalwyr at opsiynau eraill ar gyfer datrys anghydfodau y tu allan i'r llys ac yn darparu offer ac adnoddau ynghylch sut i ddod i gytundeb mewn achosion priodol sydd er budd pennaf i unrhyw blentyn sy'n gysylltiedig. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn briodol darparu offeryn ar wahân i blant i'w helpu i ddeall y broses y mae eu rhieni neu ofalwyr yn mynd drwyddi.

Drwy'r Canolfannau Teuluol a'r rhaglen Dechrau am Oes, bydd disgwyl i'r canolfannau teuluol helpu rhieni a gofalwyr i gael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau priodol sydd ar gael wrth wahanu neu ar ôl hynny, yn cynnwys, er enghraifft, rhaglenni cyfryngu a magu ar y cyd yn ôl y ddarpariaeth sydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn cydweithio â'r Adran Addysg a Chanolfan Genedlaethol y Canolfannau Teuluol i ddatblygu a rhannu arferion da ar gyfer cyrraedd rhieni a gofalwyr yn gynharach i'w helpu i edrych ar ffyrdd i ddod i gytundeb gyda'r lleiaf posibl o wrthdaro rhyngddynt. Er enghraifft, sut byddai canolfannau teuluol yn gallu meithrin cysylltiadau cryf â llysoedd teulu a darparwyr gwasanaethau cyfryngu lleol er mwyn lleoli cyfryngwyr mewn canolfannau teuluol os bydd y ddarpariaeth bresennol yn hwyluso hyn ac os yw'n briodol.

Rydym yn cydweithio â Cafcass a Cafcass Cymru ar fesurau dros dro i ymestyn y defnydd o'r rhaglenni magu ar y cyd presennol cyn cyflwyno unrhyw ofyniad i gymryd rhan ynddynt cyn mynd i'r llys:

- **Cyn gwneud cais i'r llys:** Rydym yn ystyried treialu'r cynnig o le y talwyd amdano mewn rhaglen magu ar y cyd cyn mynd i'r llys, ar gyfer rhieni/gofalwyr addas. Byddai addasrwydd rhieni/gofalwyr i gymryd rhan yn y rhaglen yn cael ei benderfynu yn y Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) presennol – y cyfarfod cyntaf â chyfryngwr i ddarparu gwybodaeth ac asesu a fyddai achos y partïon yn addas ar gyfer cyfryngu. Wedyn byddai'r cyfryngwr yn atgyfeirio rhieni/gofalwyr addas at ddarparwyr presennol y cyrsiau SPIP/Cynllunio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant/WT4C. Ariennir y gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder/Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu rhieni/gofalwyr i ganolbwyntio mor gynnar â phosibl ar yr hyn sydd er budd pennaf i'w plant.
- **Ar ôl gwneud cais i'r llys ond cyn y gwrandawiad cyntaf:** Byddwn yn ceisio cynyddu nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer cyrsiau SPIP/Cynllunio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant a WT4C a wneir gan Cafcass a Cafcass Cymru cyn y gwrandawiad cyntaf. Y nod

wrth wneud hyn fyddai cynyddu nifer y rhieni/gofalwyr sy'n dod i gytundeb yn gynnar drwy helpu rhieni/gofalwyr i ddysgu sut i fagu ar y cyd yn fwy effeithiol a chanolbwyntio ar ddod i gytundeb er budd pennaf i'w plant.

- **Yn ystod achosion llys:** Byddwn yn rhoi pŵer i Cafcass a Cafcass Cymru i atgyfeirio rhieni/gofalwyr i gymryd rhan mewn cwrs SPIP/Cynllunio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant neu WT4C ar bob cam ym mhroses y llys – er enghraifft, os oes achosion sydd wedi para'n hir lle nad oedd teuluoedd yn addas ar y dechrau o bosibl ond eu bod wedi dod yn addas. Byddwn hefyd yn cydweithio â'r farnwriaeth i annog barnwyr i orchymyn presenoldeb ar gwrs SPIP/Cynllunio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant neu WT4C yn gynharach ym mhroses y llys.

Yn ogystal â hyn, rydym yn bwriadu cyflwyno gofyniad (yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn) i rieni/gofalwyr gymryd rhan mewn cwrs SPIP/Cynllunio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant neu WT4C wedi'i ariannu cyn ymgymryd â chyfryngu gorfodol (gweler Pennod 3), ac felly cyn gallu gwneud cais i'r llys, os ydyn nhw a'u hamgylchiadau'n addas. Rydym yn cynnig y byddai addasrwydd i gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd yn cael ei asesu mewn cyfarfod cychwynnol â chyfryngwr i drafod dewisiadau yn lle'r llys, yn debyg i'r MIAM presennol. Byddai rhieni/gofalwyr sydd wedi'u hesemptio rhag o gofyniad i wneud ymdrech resymol i gyfryngu (gweler Pennod 3) wedi'u hesemptio hefyd rhag y gofyniad hwn i gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd. Rydym yn gofyn am farn ynghylch y gofyniad hwn, ac a ddylai fod yn ofynnol cwblhau rhaglen magu ar y cyd cyn dechrau cyfryngu. Mae'r rhaglen wedi'i bwriadu i helpu rhieni i gydweithio i gytuno ar drefniadau ac felly gallai ategu'r broses cyfryngu os caiff ei chwblhau cyn cyfryngu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai hyn ymestyn y cyfnod cyn dod i gytundeb neu wneud cais i'r llys, yn enwedig os bydd un rhiant yn amharod i gwblhau'r rhaglen neu os bydd rhestr aros i gymryd rhan yn y cwrs. Byddwn yn dal yr ystyriaethau hyn mewn cof, yn ogystal â'r mewnbwn o'r ymgynghoriad hwn, wrth benderfynu ar y cydbwysedd cywir rhwng galluogi unigolion i gael mynediad i'r llys yn gyflym a'r manteision o gymryd rhan mewn rhaglenni magu ar y cyd.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 1:** Ydych chi o blaid cyflwyno gofyniad gorfodol i rieni sy'n gwahanu (ac eraill fel neiniau a theidiau)[45] gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd, os ydyn nhw a'u hamgylchiadau'n cael eu hystyried yn addas ac yn amodol ar yr un esemptiadau â'r rheini

[45] Er bod 90% o geisiadau am drefniadau plentyn yn cael eu gwneud gan rieni, mae hawl gan eraill (fel neiniau a theidiau, modrabedd ac ewythrod, aelodau o'r teulu estynedig a gofalwyr) i wneud cais hefyd neu gallant ofyn am ganiatâd gan y llys i wneud hynny. Gellir cael amrywiadau hefyd o ran categorïau'r bobl sy'n gallu gwneud cais yn awtomatig, neu'n gallu gofyn am ganiatâd gan y llys i wneud cais, mewn cysylltiad â cheisiadau eraill ynghylch plant mewn cyfraith breifat. I ddibenion y ddogfen hon, rydym wedi defnyddio'r term 'rhieni/gofalwyr' i gyfeirio at bob oedolyn sy'n gwneud (y ceisydd) neu'n ymateb i (yr atebydd) cais mewn cyfraith breifat ynghylch trefniadau ar gyfer plant.

ar gyfer o gofyniad am gyfryngu (gweler Pennod 3), cyn iddynt allu gwneud cais i'r llys am orchymyn trefniadau plant neu orchymyn plant arall?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Nodwch resymau dros eich ateb

**Cwestiwn 2:** Os ydych chi o blaid hyn, a ydych chi o blaid ei wneud yn ofynnol cyn gallu dechrau cyfryngu?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Nodwch resymau dros eich ateb

**Cwestiwn 3:** A ddylid darparu gwybodaeth am broses y llys (gwybodaeth gyfreithiol heb ei theilwrio) i'r rheini sydd mewn anghydfod cyfraith teulu breifat:

- yn y cyfarfod asesu a gwybodaeth am gyfryngu (MIAM)
- yn y rhaglen magu ar y cyd
- drwy ddull ar-lein
- drwy unrhyw ddull arall (noder)

Nodwch resymau dros eich ateb

**Cwestiwn 4:** Ar sail yr adnoddau ar-lein presennol, beth yw'ch barn am ddarparu offeryn ar-lein gan y llywodraeth i helpu rhieni, gofalwyr ac efallai plant sydd â rhan mewn achosion trefniadau plentyn? Pa wybodaeth ac adnoddau y dylid rhoi blaenoriaeth i'w darparu drwy unrhyw offeryn o'r fath i helpu teuluoedd i ddatrys materion yn gynharach?

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n credu ei bod yn briodol i gyfryngwyr benderfynu'r addasrwydd i gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd mewn cyfarfod i ddarparu gwybodaeth?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Nodwch resymau dros eich ateb

# Pennod 3 – Cytuno mewn anghydfodau cyfraith teulu breifat drwy gyfryngu

Yn y bennod hon, byddwn yn gofyn am farn ynghylch:

a. **Cyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys**
   Ar ba ffurf y gallai fod ar gyfer cyplau sy'n gwahanu, rhieni neu eraill sy'n ceisio cytuno ar drefniadau plant neu drefniadau ariannol ac ym mha amgylchiadau na ddylai'r gofyniad hwn fod yn gymwys.
b. **Ariannu cyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys**
   A ddylid talu holl gostau cyfryngu ar gyfer trefniadau plant a threfniadau ariannol neu a ddylem ystyried ariannu cyfryngu ar gyfer achosion ariannol yn unol â throthwyon cymorth cyfreithiol.
c. **Sut i baratoi'r sector cyfryngu**
   Pa newidiadau sydd eu hangen i baratoi'r sector cyfryngu (yn cynnwys hyfforddi ac achredu) cyn cyflwyno cyfryngu gorfodol.

## Cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd sy'n gwahanu yn gallu dod i gytundeb o ran pwy y bydd y plentyn yn byw gyda nhw ac yn eu gweld, a materion penodol fel yr ysgol y bydd y plentyn yn ei mynychu, heb droi at neb arall.[46] Ar gyfer y rhieni/gofalwyr hynny na allant gytuno rhyngddynt ac sydd ag angen cymorth, ac ar gyfer cyplau sy'n ysgaru neu eraill sy'n ceisio cytuno ar drefniadau ariannol iddyn nhw a/neu eu plant, mae nifer o opsiynau ar gael y tu allan i'r llys i helpu pobl i ddod i gytundeb. Y mwyaf poblogaidd o'r rhain yw cyfryngu teuluol.

Mae cyfryngu teuluol yn broses lle bydd cyfryngwr annibynnol hyfforddedig yn helpu pobl i benderfynu ar drefniadau gyda chyfranogwr arall (er enghraifft cyn-bartner) ynghylch eu plant, eiddo neu faterion ariannol. Bydd y cyfryngwr wrth law i helpu pobl i ddatrys unrhyw anghytundeb a dod o hyd i atebion sy'n addas i'w teulu, wedi'u teilwrio yn ôl eu hamgylchiadau. Ni fydd y cyfryngwr yn barnu nac yn penderfynu ar y cytundeb terfynol ond, yn hytrach, yn cydweithio â'r teulu i'w helpu i ddod i gytundeb ar y cyd ar rai agweddau neu'r holl agweddau ar yr anghytuno sydd rhyngddynt. Er ei bod yn bosibl mai un cyfranogwr fydd wedi "dod o hyd" i'r cyfryngwr, nid fydd yn gweithredu ar ran y naill na'r llall o'r cyfranogwyr. Ei waith yw helpu'r ddau gyfranogwr i ddod i gytundeb a phenderfynu

[46] Roedd 2.3 miliwn o deuluoedd wedi gwahanu ym Mhrydain Fawr a 3.6 miliwn o blant yn y teuluoedd sydd wedi gwahanu yn 2021 - Separated families statistics: April 2014 to March 2021 (experimental) - GOV.UK (www.gov.uk)

ar ffordd ymarferol ymlaen. Agwedd bwysig ar gyfryngu yw ei fod yn caniatáu i'r bobl gysylltiedig gadw rheolaeth dros y canlyniad ac mae hyn yn golygu na fydd y naill ochr na'r llall yn gorfod gwneud dim sy'n groes i'w dymuniadau.

Nid cynghori priodasol yw cyfryngu. Nid yw cyfryngwyr yn ceisio dod â chyplau'n ôl at ei gilydd nac yn gofyn iddynt gyd-fyw er mwyn eu plant. Ei bwrpas yw dod o hyd i'r ffordd orau i ofalu am y plant os bydd y rhieni wedi gwahanu, cytuno ar sut i rannu arian yn deg, neu gytuno ag aelodau eraill o'r teulu (neiniau a theidiau, er enghraifft) ar sut a pha bryd y byddant yn gallu gweld y plant.

Nod cyfryngu teuluol yw gwella'r cyfathrebu rhwng y ddau barti. Yn wahanol i'r llys, rhaid i'r holl gyfranogwyr gytuno ar y trefniant terfynol; ni fydd cyfryngwr yn penderfynu ar eu rhan, fel y gwnaiff barnwr. Gall cyfryngwyr weithio gyda'r oedolion a'r plant, un ai gyda'i gilydd neu ar wahân, a cheisio eu helpu i ddod o hyd i ateb sy'n addas i bawb ac sydd er y budd pennaf i'r plant.[47]

Gellir cyfryngu lle mae'r ddau gyfranogwr gyda'i gilydd yn yr un ystafell, neu gyfryngu mewn ystafelloedd ar wahân (cyfryngu yn ôl a blaen), os bydd un cyfranogwr yn teimlo'n anghyfforddus wrth fod yn yr un ystafell â'r llall. Mae nifer o gyfryngwyr yn cynnig cyfryngu sy'n cynnwys y plant, lle bydd cyfryngwr hyfforddedig yn siarad â'r plentyn yn rhan o'r broses er mwyn ystyried ei ddymuniadau a'i deimladau.

Oherwydd y nodweddion hyn, mae cyfryngu'n cael ei weld yn aml yn ddull llai gwrthwynebol a llai gofidus o ddatrys anghydfodau na mynd i'r llys. Mae ymchwil i'r buddion sy'n gysylltiedig â chyfryngu yn dangos bod rhieni'n cael canlyniadau cadarnhaol, a bod nifer mawr ohonynt yn fodlon â'r cytundeb a gafwyd.[48]

Er nad yw pob sefyllfa yn addas ar gyfer cyfryngu (mae hyn yn cael ei drafod yn fwy manwl isod), pan fydd y ddau unigolyn yn cymryd rhan yn y broses, dangoswyd bod hynny'n arwain at gyfraddau llwyddo uchel.[49] Mae hefyd yn gallu rhoi i rieni ac oedolion eraill y dealltwriaeth a'r offer sydd eu hangen i ddatblygu atebion gyda'i gilydd, felly pan fydd amgylchiadau'n newid (er enghraifft, os bydd plentyn yn symud i ysgol uwchradd neu os bydd un o'r rhieni/gofalwyr yn symud tŷ) mae'n bosibl y byddant yn gallu dod i gytundeb heb ofyn am gymorth gan weithiwr proffesiynol.

Rydym am adeiladu ar sail llwyddiant y cynllun talebau cyfryngu drwy gyflwyno gofyniad i gyfryngu cyn gwneud cais i'r llys, mewn achosion priodol. Rydym wedi adolygu'r ffordd y

---

[47] Nodau ac Amcanion y Cyngor Cyfryngu Teuluol (https://www.familymediationcouncil.org.uk/us/code-practice/aims-objectives/)

[48] Family-Mediation-Survey-Autumn-2019-Results.pdf (familymediationcouncil.org.uk)

[49] Family-Mediation-Survey-Autumn-2019-Results.pdf (familymediationcouncil.org.uk)

cafodd hyn ei gyflwyno mewn gwledydd eraill a pha fesurau diogelwch sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau na fydd gofyn i bobl gymryd rhan lle nad yw hynny'n addas iddynt.

## Dysgu gwersi gan wledydd eraill

Mae nifer o wledydd eraill wedi cyflwyno gofyniad gorfodol am gymryd rhan mewn cyfryngu cyn gwneud cais i'r llys ar gyfer achosion trefniadau plant. Weithiau bydd hyn yn mynd law yn llaw â gofyniad gorfodol i gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd.

Yn **Awstralia,** roedd dulliau amgen o ddatrys anghydfodau wedi'u gwneud yn orfodol ar gyfer cyfraith teulu breifat yn 2006, gyda'r nod o beri "generational change in family law" a "cultural shift […] away from litigation and towards co-operative parenting."[50] Roedd y diwygiadau'n ei gwneud yn ofynnol i rieni geisio dod i gytundeb drwy ddatrys anghydfodau cyn dod i'r llys. Crëwyd esemptiadau ar gyfer achosion sy'n ymwneud â thrais, cam-drin plant a brys.

Roedd ymchwil a wnaed yn 2009 yn awgrymu bod y diwygiadau yn Awstralia wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd tua dwy ran o dair o rieni sy'n gwahanu yn cysylltu â gwasanaethau perthnasoedd teuluol.[51] Er hynny, gwelwyd problemau yng nghyswllt achosion cam-drin domestig. Mewn gwerthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Awstralia,[52] nodwyd bod sgrinio am gam-drin domestig yn annigonol, a bod y teuluoedd hynny hefyd yn wynebu costau uwch am nad oeddent wedi dod i gytundeb drwy gyfryngu a bod angen o hyd iddynt ddod i'r llys.

Wedyn yn 2011, cyflwynodd Llywodraeth Awstralia *Ddeddf Diwygio Cyfraith Teulu (Trais Teuluol a Materion Eraill) 2011*.[53] Roedd y ddeddf hon yn ehangu'r diffiniad o drais a cham-drin teuluol ac yn rhoi gweithwyr proffesiynol dan rwymedigaeth i hysbysu rhieni y dylai trefniadau fod yn rhai sy'n sicrhau diogelwch plant. Arweiniodd hyn at gyflwyno'r dull Datrys Anghydfodau Teuluol Cydgysylltiedig: dull arbenigol, amlddisgyblaethol gyda chymorth cyfreithwyr a oedd yn cynnwys sgrinio trwyadl mewn achosion lle'r oedd hanes o gam-drin domestig.

Yn **Seland Newydd**, roedd cyfryngu wedi'i wneud yn orfodol mewn anghydfodau trefniadau plentyn yn 2014,[54] gyda'r nod o symud y ffocws oddi wrth y llysoedd teulu ac at wasanaethau datrys anghydfodau y tu allan i'r llys. Roedd y newidiadau'n rhoi blaenoriaeth i fuddiannau plant, ond yn darparu esemptiadau ar gyfer ceisiadau ynghylch

50 Tudalen 20, Evaluation of the 2006 family law reforms | Australian Institute of Family Studies (aifs.gov.au)

51 Tudalen 21, Evaluation of the 2006 family law reforms | Australian Institute of Family Studies (aifs.gov.au)

52 Tudalen 22, Evaluation of the 2006 family law reforms | Australian Institute of Family Studies (aifs.gov.au)

53 Family Law Legislation Amendment (Family Violence and Other Measures) Bill 2011 – Parliament of Australia (aph.gov.au)

54 Family Dispute Resolution Act 2013 No 79 (as at 28 October 2021), Public Act – New Zealand Legislation

cam-drin domestig neu fesurau brys. Lle mae rhieni am gael penderfyniad gan lys, rhaid iddynt fod wedi ceisio datrys yr anghydfod teuluol o fewn 12 mis cyn dechrau'r achos llys a rhaid i hyn gael ei ardystio gan gyfryngwr datrys anghydfodau teuluol cymeradwyedig a rhaid iddynt fod wedi cwblhau cwrs 'Parenting Through Separation' o fewn y ddwy flynedd blaenorol.[55]

Yn **Norwy**, mae'r system ar gyfer datrys anghydfodau trefniadau plant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl rieni sy'n gwahanu (sydd â phlant o dan 16 oed) yn cymryd rhan mewn cyfryngu.[56] Mae lefelau'r gofynion i deuluoedd yn amrywio yn ôl y cam y maent wedi'i gyrraedd wrth wahanu. Ar y lefel isaf, mae'n ofynnol i rieni fynd at Wasanaeth Cwnsela Teuluol, neu sefydliad tebyg, am o leiaf un awr. Nod cyffredinol y cyfryngu hwn yw sicrhau cytundeb ysgrifenedig ar drefniadau gofal plant. Wedyn rhoddir trwydded cyfryngu i rieni am chwe mis a fydd yn caniatáu iddynt ymgyfreitha. Mae cyfryngu cyn yr achos yn orfodol i rieni/gofalwyr sy'n gwneud cais i'r llys.

## Gweithredu gan lywodraeth hyd yn hyn

**Cyflwyno'r gofyniad am Gyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu**

Yn 2014, er mwyn annog mwy o deuluoedd i ystyried y manteision posibl o ddefnyddio dulliau amgen yn lle mynd i'r llys mewn achosion cyfraith teulu breifat, cyflwynodd y Llywodraeth ofyniad drwy'r Ddeddf Plant a Theuluoedd fod unigolion i gymryd rhan mewn Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) cyn gwneud rhai ceisiadau i'r llys teulu.[57] Yn ôl Rheolau Trefniadaeth Teulu a wnaed o dan y ddeddfwriaeth hon, mae'r gofyniad yn gymwys ar hyn o bryd i'r rhan fwyaf o anghydfodau plant cyfraith breifat a'r rhan fwyaf o geisiadau am rwymedi ariannol.[58]

Mae'n ofynnol bod y person sydd am wneud cais i'r llys yn cymryd rhan mewn MIAM, oni bai ei fod wedi'i esemptio (gweler isod). Yn y cyfarfod hwnnw bydd cyfryngwr yn asesu a yw'r anghydfod yn addas ar gyfer cyfryngu, yn rhannu gwybodaeth am y broses cyfryngu a dewisiadau eraill yn lle mynd i'r llys, a gall y cyfranogwyr benderfynu a fyddant yn mynd ymlaen â sesiynau cyfryngu neu'n edrych ar opsiwn arall. Dim ond cyfryngwyr teuluol awdurdodedig a gaiff gynnal MIAM, h.y. cyfryngwyr y mae'r Cyngor Cyfryngu Teuluol (FMC) wedi nodi eu bod yn gymwys i wneud hynny.[59] Un o ofynion yr FMC ar gyfer

---

55 Parenting Through Separation course | New Zealand Ministry of Justice

56 Tjersland, O., Gulbrandsen, W., a Haavind, H. (2015); Mandatory Mediation outside the Court: A Process and Effect Study. *Conflict Resolution Quarterly*, *33*(1), 19–34

57 Adran 10 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014

58 Rheol 3.6, Rheolau Trefniadaeth Teulu Rhan 3, ynghyd â pharagraffau 12 a 13 o Gyfarwyddyd Ymarfer 3A.

59 Rheolau Trefniadaeth Teulu 3.1 a 3.7.

achredu cyfryngwyr yw eu bod yn dilyn hyfforddiant ar gam-drin domestig a sut i'w adnabod.

Ar hyn o bryd, mae 16 math o esemptiad rhag cymryd rhan mewn MIAM y gall ceisydd posibl eu hawlio'n uniongyrchol (e.e., brys, tystiolaeth o gam-drin domestig), a 3 math o esemptiad y mae angen i gyfryngwr eu hardystio[60] (e.e., bod achos yn anaddas ar gyfer cyfryngu). Nodir yr esemptiadau hyn ac, mewn rhai amgylchiadau, manylion y dystiolaeth y mae angen ei darparu i'w profi, yn Rhan 3 o'r Rheolau Trefniadaeth Teulu ynghyd â Chyfarwyddyd Ymarfer 3A. Mae'n ofynnol hefyd[61] fod cyfryngwyr sy'n cynnal MIAM yn asesu addasrwydd cyfryngu fel ffordd i ddatrys yr anghydfod, ac yn asesu a fu neu a oes perygl o achosi cam-drin domestig a niwed gan ddarpar barti i blentyn a fyddai'n destun cais i'r llys.

Nid yw'r gofyniad ar gyfer MIAM yn gweithio fel y bwriadwyd. Mae data yn awgrymu mai dim ond 33% o geiswyr i'r llysoedd teulu ar gyfer mater cyfraith breifat ynghylch plant a oedd wedi cymryd rhan mewn MIAM yn 2020/21 lle byddai'r math o gais dan sylw wedi galw fel arfer am gymryd rhan mewn MIAM.[62] Roedd y gweddill wedi nodi eu bod yn gymwys ar gyfer un o'r esemptiadau a bennwyd yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu. Er bod yr hawliad am y rhan fwyaf o'r esemptiadau hyn yn ddilys, ni cheir craffu priodol bob amser ar y rhesymau a roddwyd pan gyflwynir cais ac mae'n bosibl na fydd y dystiolaeth i ategu'r esemptiad wedi cael ei hystyried cyn y gwrandawiad llys cyntaf. Cafwyd un enghraifft o'r fath yn achos KvK[63] yn y Llys Apêl yn Ebrill 2022, lle'r oedd y llys wedi dyfarnu bod defnydd amhriodol o'r esemptiad "brys" a oedd heb ei ganfod gan y llys gwrandawiad cyntaf.

**Cynllun talebau cyfryngu**

Ym Mawrth 2021, cafodd cynllun talebau cyfryngu teuluol ei lansio a'i ariannu gan y Llywodraeth dros gyfnod penodedig i helpu rhieni/gofalwyr i gytuno ar drefniadau drwy gyfryngu a'u helpu i osgoi'r angen i fynd drwy achosion llys sydd yn aml yn hir ac a all fod yn gostus ac sydd, fel y gwyddom, yn gallu cael effaith niweidiol ar blant. Mae'r cynllun wedi profi'n boblogaidd, a rhoddwyd 13,500 o dalebau erbyn Ionawr 2023. Mae swm ychwanegol o £5.4 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–2023 a fydd, fe ddisgwylir, yn helpu o leiaf 10,200 yn rhagor o deuluoedd ac a fydd yn dod â chyfanswm ein buddsoddiad i £8.7 miliwn. Mae data o arolygon y Cyngor Cyfryngu Teuluol o'r 2,800 cyntaf o dalebau a ddarparwyd o dan y cynllun yn dangos bod 65% o deuluoedd a ddaeth i sesiynau cyfryngu wedi dod i gytundeb llawn neu rannol heb fynd i'r llys teulu, a bod 3% ychwanegol wedi mynd ymlaen dim ond i sicrhau gorchymyn cydsynio i ffurfioli eu

[60] PART 3 - NON-COURT DISPUTE RESOLUTION (justice.gov.uk), FPR 3.8

[61] PART 3 - NON-COURT DISPUTE RESOLUTION (justice.gov.uk), FPR 3.9

[62] Family Court Statistics Quarterly Family Court Statistics Quarterly: October to December 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

[63] K v K, [2022] EWCA Civ 468.

cytundeb. Mae'r gyfradd lwyddo hon yn weddol gyson â'r hyn a wyddom am y gyfradd setlo o dan gyfryngu drwy gymorth cyfreithiol.[64]

Yn ôl astudiaeth achos ddienw am unigolyn a gafodd daleb drwy'r Cynllun Talebau Cyfryngu Teuluol yn 2022:

> "Cafodd y ddau gyfranogwr MIAM ar ddechrau Tachwedd 2021. Ar ôl cynnal y ddau MIAM a minnau wedi asesu bod y cyfranogwyr yn addas ar gyfer cyfryngu, cafwyd gohebiaeth rhwng y ddau gyfreithiwr, ac roedd y cyfryngu ar fin methu â digwydd oherwydd methiant mewn cyfathrebu. Darbwyllais y cyfranogwyr i fynd ymlaen â'r cyfarfod cyfryngu cyntaf am fy mod yn gallu defnyddio'r ffaith eu bod yn gymwys i gael taleb o dan gynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder/FMC a bod hynny'n cynnig llygad o oleuni mewn sefyllfa a oedd yn un ddigalon fel arall. Roeddent wedi cytuno i fynd ymlaen ond dim ond ar y sail eu bod yn eistedd mewn ystafelloedd trafod rhithiol ar wahân…
>
> Y canlyniadau yw bod y rhieni'n cydweithio i fagu'r plant ar y cyd a bod ffurflenni datgelu ariannol wedi'u llenwi a'u cyfnewid cyn y Nadolig (sydd yn gyfnod cwblhau byr iawn ar ôl dechrau ar ddiwedd Tachwedd 2021). Mae'r rhieni wedi gweithio drwy gyfryngu i droi oddi wrth fod yn wrthwynebwyr (gyda'r fath fethiant o ran cyfathrebu fel bod posibilrwydd o gychwyn achos llys), i fod yn ddatryswyr problemau cydweithredol heb fwriad i dywyllu drysau'r llys! Heb abwyd y Cynllun Talebau, byddai'r cyfryngu hwn wedi methu o'r cychwyn."

## Beth ellid delio ag ef drwy weithredu gan lywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol dros ben o'r pwysigrwydd o ddiogelu mynediad gan bobl i'r llysoedd a hawliau i fywyd teuluol, ond credwn fod modd sicrhau cydbwysedd sy'n gwarantu'r hawliau hyn ond sydd hefyd yn cynnig y cyfle gorau posibl i ddatrys anghydfodau'n gynharach a heb ymyriad gan y llys.

Rydym yn cydweithio â'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu i dynhau esemptiadau. Credwn fod angen cwtogi'r rhestr bresennol o esemptiadau rhag cymryd rhan mewn MIAM ac y dylai'r llysoedd roi prawf mwy trwyadl ar esemptiadau; er enghraifft, ceir esemptiad os nad oes cyfryngwr awdurdodedig o fewn 15 milltir i gartref y ceisydd er bod nifer o gyfryngwyr bellach yn cynnig MIAM ar-lein. Bydd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu hefyd yn ystyried amseriad a gorfodaeth y gofyniad am dystiolaeth ar gyfer esemptiadau rhag y gofyniad am MIAM (gweler Pennod 4). Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried cyflwyno newidiadau mewn rheolau i annog rhieni i feddwl am ddefnyddio dulliau datrys anghydfod,

64 Legal aid statistics England and Wales bulletin Apr to Jun 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

yn cynnwys drwy'r defnydd o orchmynion costau. Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori ar y newidiadau hyn yn gynnar yn 2023.

Bwriad y newidiadau posibl yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu yw sicrhau bod y gofyniad presennol am MIAM yn cael ei gymhwyso a'i orfodi mor effeithiol â phosibl, yn cynnwys yn y cyfnod ar ôl gwneud cais i'r llys. Ein gobaith yw y bydd modd gwneud newidiadau yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu ar MIAM mor gyflym â phosibl. Fodd bynnag, uchelgais y Llywodraeth yw mynd ymhellach, ac rydym am gyflwyno system newydd lle byddwn yn gwneud cyfryngu'n orfodol cyn gwneud cais i'r llys.

**Gofyniad i gyfryngu cyn gwneud cais i'r llys:** Rydym am weld pawb sy'n ceisio datrys anghydfodau a gwneud trefniadau ar gyfer eu plant neu faterion ariannol, yn cynnwys wrth wahanu neu ysgaru/diddymu, yn gwneud ymdrech resymol i gyfryngu cyn cyflwyno cais am orchymyn llys, oni bai eu bod yn gymwys i gael eu hesemptio. Byddai'r gofyniad hwn yn gymwys yn yr un mathau o achosion lle mae'r gofyniad am MIAM yn gymwys ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os ydych wedi gwahanu oddi wrth eich partner a'ch bod am benderfynu ar bwy y bydd eich plentyn yn byw gyda nhw neu pwy y bydd yn ei weld, neu sut bydd materion ariannol yn cael eu trefnu yn dilyn gwahanu neu ysgaru/diddymu, y byddwn yn disgwyl i chi fod wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu cyn troi at y llys teulu i wneud trefniadau ar eich rhan. Yn yr un modd, bydd disgwyl hefyd fod y person nad yw'n gwneud y cais ond y byddai angen iddo ymateb iddo pe byddai'n cael ei wneud, yn gwneud ymdrech resymol i gyfryngu pan gysylltir â'r person hwnnw i ofyn iddo wneud hynny.

O dan system newydd o gyfryngu gorfodol cyn gwneud cais, byddai'r rhai cysylltiedig yn dod i gyfarfod gwybodaeth, yn debyg i'r MIAM presennol, cyn cymryd rhan mewn cyfryngu. Byddai'r cyfarfod hwn yn darparu gwybodaeth iddynt am broses y llys a manteision cyfryngu a dulliau eraill o ddatrys anghydfodau. Byddai'r cyfarfod hwn hefyd yn rhoi cyfle i'r cyfryngwr asesu addasrwydd y partïon ar gyfer cyfryngu a chwblhau rhaglen magu ar y cyd, ac a yw esemptiadau penodol yn gymwys (er enghraifft, esemptiadau na ellir eu hunanardystio gan y ceisydd).

Ar sail y canfyddiadau am y cynllun talebau cyfryngu, rydym yn rhagweld yn achos mwyafrif y cyfranogwyr, y bydd cymryd rhan mewn cyfryngu gorfodol yn arwain at gytundeb llawn neu rannol. Ar gyfer y rheini na allant gytuno, byddai'r achos yn mynd ymlaen i'r llys.

**Esemptiadau rhag cyfryngu gorfodol:** Rydym wedi adolygu'r esemptiadau presennol rhag cymryd rhan mewn MIAM yn ogystal ag enghreifftiau o wledydd tramor o'r ffordd y datblygwyd polisïau i wneud cyfryngu cyn mynd i'r llys yn orfodol. Un nodwedd sy'n gyffredin i'r systemau hyn a'n gofyniad presennol o ran MIAM, yw bod achosion lle codwyd

pryderon am gam-drin domestig,[65] neu achosion sy'n anaddas am reswm arall, yn cael eu nodi'n gynnar ac nad yw'n ofynnol mynd ymlaen i gyfryngu cyn gallu gwneud cais i'r llys.

Rydym yn cydnabod nad yw cyfryngu'n addas yn yr amgylchiadau hyn ac mewn amgylchiadau eraill (er enghraifft, amgylchiadau penodol yn ymwneud â brys a/neu amddiffyn plant sydd wedi'u pennu yn yr esemptiadau presennol rhag MIAM). Rydym am sicrhau y bydd esemptiadau priodol rhag y gofyniad i gyfryngu er mwyn cael cydbwysedd rhwng y gallu i gael mynediad i'r llys a chynnig mwy o gyfleoedd i ddod i gytundeb yn breifat. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am farn ynghylch esemptiadau priodol, ond byddwn hefyd yn cymryd barn y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu i ystyriaeth yn dilyn ei adolygiad o'r rhestr o esemptiadau ar gyfer MIAM.

**Asesu esemptiad:** Rydym yn cynnig y bydd y ddau berson sydd â rhan yn yr anghydfod yn gallu "hunanardystio" esemptiadau penodol. Mae hyn yn golygu y bydd rhywun yn gallu gwneud cais yn uniongyrchol i'r llys ac na fydd angen i gyfryngwr na'r llys ei asesu cyn anfon y cais. Byddai'r esemptiadau hyn yn cynnwys amgylchiadau brys, tystiolaeth o gam-drin domestig, a rhai amgylchiadau yn ymwneud ag amddiffyn plentyn, fel y rheini sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer esemptiad rhag MIAM.[66] Byddai gofyn o hyd am ddarparu tystiolaeth o blaid caniatáu esemptiad a byddai'r llys yn craffu ar hyn pan gaiff y cais. Byddai pŵer newydd gan y llys hefyd i orchymyn i'r partïon wneud ymdrech resymol i gyfryngu, ar ôl cael cais, os yw esemptiad wedi'i hawlio'n annilys neu os cafodd ei hawlio'n ddilys ond nad yw'r amgylchiadau'n gymwys bellach (e.e., bod y mater brys wedi cael sylw a bod y mater wedi dod yn un addas ar gyfer cyfryngu (fel yr amlinellwyd ym Mhennod 4)). Ar gyfer esemptiadau eraill, byddai angen cael cadarnhad gan gyfryngwr, yn dilyn y cyfarfod cychwynnol, nad yw'r achos yn addas ar gyfer cyfryngu.

Os bydd rhywun yn gwneud cais i'r llys ac nad yw'n gallu darparu tystiolaeth ei fod wedi rhoi cynnig ar gyfryngu neu os nad yw wedi cael esemptiad dilys, yna bydd pŵer gan y llys (gweler Pennod 4) i oedi'r cais, un ai fel y bydd y person yn gallu casglu a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol neu er mwyn i'r partïon wneud ymdrech resymol i gyfryngu. Os bydd un o'r partïon wedyn heb wneud ymdrech resymol i gyfryngu, byddai'r cais yn mynd yn ei flaen ond byddai'r llys yn gallu cymryd y diffyg ymgysylltu hwn i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid dyfarnu unrhyw gostau (fel y trafodwyd ym Mhennod 4). Os na fydd y ceisydd neu'r cyfryngwr yn gallu dod o hyd i'r atebydd, byddai angen i hyn gael ei gadarnhau gan y cyfryngwr a gallai'r achos fynd yn ei flaen i'r llys hefyd – er byddai pŵer newydd gan y llys, unwaith eto, i gyfarwyddo'r partïon i wneud ymdrech resymol i gyfryngu

65 Rydym yn defnyddio'r term 'cam-drin domestig' yma. Defnyddir y term 'trais domestig' yn y cyfarwyddyd ymarfer perthnasol. Mae'r cyfarwyddyd ymarfer yn diffinio hyn fel a ganlyn: 'any incident, or pattern of incidents, of controlling, coercive or threatening behaviour, violence or abuse (whether psychological, physical, sexual, financial or emotional) between the prospective applicant and another prospective party'.

66 Y diffiniad o hyn yw sefyllfa lle mae'r plentyn yn destun ymholiadau gan awdurdod lleol o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989; neu'n destun cynllun amddiffyn plentyn sy'n cael ei weithredu gan awdurdod lleol.

os llwyddwyd i gysylltu â’r parti arall yn ystod yr achos a bod y llys wedi penderfynu bod yr achos yn addas ar gyfer cyfryngu.

**“Ymdrech resymol i gyfryngu”:** Os bydd y rhai sy’n gysylltiedig wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu ond nad yw hyn wedi bod yn llwyddiannus, yna bydd eu cais yn mynd yn ei flaen ac yn cael ei adolygu yn rhan o broses porthgadw y llys (gweler Pennod 4). Fel y nodwyd ym Mhennod 4, rydym er hynny’n ei gweld yn bwysig gwylio rhag llusgo’r broses cyfryngu ymlaen neu weithredu afresymol gan y partïon. Byddwn yn falch o gael barn ynghylch sut i gyflawni hyn. Isod rydym hefyd yn gofyn am fewnbwn ynghylch beth fyddai ‘ymdrech resymol’.

Os bydd ymdrech i ddatrys anghydfod yn methu, cwestiwn pellach yw a ddylai’r llys gael pŵer newydd i beri i’r partïon wneud datganiad i’r llys yn egluro’r ffordd y maent wedi mynd ati i ddatrys yr anghydfod cyn dod i’r llys a’u safbwynt ar y materion o sylwedd sydd yn y fantol.

Disgwylir y bydd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu yn ymgynghori cyn hir ar gynnig i’w gwneud yn ofynnol bod pobl yn cadarnhau drwy lythyr a ydynt wedi gwneud ymdrech i ddatrys yr anghydfod.

Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch y ffordd orau i’r llys ddelio ag achosion lle mae dadl ynghylch disgrifiad un neu ddau o’r partïon o’r cyfryngu a gafwyd cyn dod i’r llys. Drwy ganfod y ffeithiau, bydd y llys yn gallu cymhwyso unrhyw orchymyn costau yn yr achosion hyn yn gywir. Er enghraifft, gallem ofyn i bartïon ystyried ildio eu hawl i gyfrinachedd yn y broses cyfryngu neu ofyn i’w cyfryngwr am ei farn am yr hyn a ddigwyddodd, os bydd yn barod i’w darparu.

**Cymorth ariannol i gymryd rhan mewn cyfryngu:** Mae’n bwysig i ni na fydd rhieni a’u plant ar eu colled yn ariannol o ganlyniad i’r gofyniad i gymryd rhan mewn cyfryngu gorfodol. Felly, rydym yn bwriadu talu costau cyfryngu yn yr holl achosion plant, hyd at werth o £500, lle nad oes esemptiad rhag cyfryngu. Byddai hyn yn cymryd lle’r Cynllun Talebau Cyfryngu dros dro yn y tymor hir.

Ar gyfer achosion rhwymedi ariannol, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid darparu’r un cymorth ariannol ag a gynigir ar gyfer achosion plant neu a ddylid cymhwyso trothwyon cymorth cyfreithiol lle mae ceiswyr yn cyflwyno achosion rhwymedi ariannol. Mae cymorth cyfreithiol ar gael ar hyn o bryd i dalu costau cyfryngu mewn amgylchiadau penodol, ar yr amod bod ceiswyr yn bodloni prawf modd. Ar hyn o bryd, os mai un o’r partïon yn unig sy’n bodloni’r prawf modd, yna bydd y parti hwnnw yn cael cymorth cyfreithiol a bydd y parti nad yw’n gymwys hefyd yn cael cynnig cymorth cyfreithiol i dalu costau’r MIAM a’r sesiwn cyfryngu gyntaf. Os yw’r ddau barti yn bodloni’r prawf, telir costau’r holl sesiynau. Daeth ein hymgynghoriad ar yr Adolygiad o’r Prawf Modd i ben ar 7 Mehefin 2022 a byddwn yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth maes o law. Byddwn yn parhau i ystyried y sefyllfa o ran talu costau cyfryngu yng ngolwg yr ymateb i’r ymgynghoriad hwn.

**Achredu cyfryngwyr:** Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen rhagor o reoleiddio i bennu safonau ar gyfer cyfryngwyr sy'n darparu cyfryngu teuluol, ar ben y rheini sydd eisoes wedi'u gosod gan y Cyngor Cyfryngu Teuluol (FMC). Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch a fyddai rheoleiddio o'r fath yn gallu helpu i sicrhau bod y farchnad cyfryngu yn aros yn gystadleuol ac yn hygyrch i'r rheini a fyddai bellach yn wynebu gofyniad i geisio cyfryngu er mwyn gallu cael mynediad i'r llysoedd teulu – yn cynnwys a oes angen unrhyw reoleiddio ar ffioedd. Ar hyn o bryd, mae cyfryngwyr yn cael eu hachredu gan yr FMC. Yn ôl y Rheolau Trefniadaeth Teulu perthnasol, dim ond cyfryngwyr a awdurdodwyd gan yr FMC i gynnal MIAM a gaiff wneud hynny a gallant ardystio esemptiadau rhag cymryd rhan mewn MIAM. Mae'r FMC yn ei dro yn awdurdodi dim ond y cyfryngwyr hynny sydd wedi'u hachredu ganddo, neu'r rheini sy'n ceisio cael achrediad i ardystio esemptiadau rhag y gofyniad am MIAM. Rydym yn cynnig dull tebyg o weithredu ar gyfer cyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys a chyfryngu sydd wedi'i orchymyn gan y llys ar ôl gwneud cais iddo, h.y., mater i'r FMC fyddai awdurdodi cyfryngwyr i gynnal y sesiynau cyfryngu, ac i gyfryngwyr ardystio esemptiadau ac ardystio bod partïon wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu. Byddwn yn cydweithio â'r FMC i sicrhau bod y system achredu bresennol yn cwrdd ag anghenion y cynllun newydd.

**Sector cyfryngu cryfach a mwy hyblyg:** Mae'r farchnad cyfryngu teuluol yn gymysgedd o fusnesau bach/cyfryngwyr hunangyflogedig, rhai darparwyr gwasanaethau cyfryngu sefydledig, a chyfryngwyr sy'n gweithio mewn cwmnïau cyfreithwyr o wahanol faint. Rydym wedi gweld yn ystod y pandemig COVID-19 fod y farchnad yn gallu newid i ymateb i anghenion, wrth i sesiynau cyfryngu fynd ar-lein a chael eu cynnig gyda'r hwyr ac ar benwythnosau i gyd-fynd ag anghenion y cyfranogwyr. Bellach nid yw lleoliad eich cartref yn rhwystr i ddod o hyd i gyfryngwr a chydweithio ag ef. Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y gallwn gefnogi'r farchnad er mwyn ateb y galw cynyddol.

**Dulliau eraill o ddatrys anghydfodau teulu y tu allan i'r llys:** Mae dulliau datrys anghydfod eraill ar gael i deuluoedd. Nid ydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i bobl roi cynnig ar un o'r dulliau datrys anghydfod hyn y tu allan i'r llys yn lle cyfryngu. Er hynny, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai ymdrech i ddod i gytundeb drwy ddull arall o ddatrys anghydfodau fod yn rhywbeth sy'n esemptio pobl rhag y gofyniad i gyfryngu, ac ynghylch a ddylai unrhyw un o'r gwasanaethau canlynol, neu rai eraill, fod â rhan ychwanegol yn y system arfaethedig:

- **Cyflafareddu:** Mae'r rheini sydd â rhan yn yr anghydfod yn gallu cytuno i benodi cyflafareddwr i ystyried y dadleuon a phenderfynu ar eu hachos. Fodd bynnag, yn yr un modd â phob math arall o setliad drwy gyfryngu, byddai angen troi penderfyniad y cyflafareddwr yn orchymyn llys er mwyn gallu ei orfodi, ac felly byddai'r llys yn cymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol sy'n gymwysadwy i faterion plant, fel hollbwysigrwydd lles y plentyn.
- **'Cyfreithwyr cydweithredol':** Gall unigolion benodi cyfreithiwr i lofnodi cytundeb i geisio datrys yr achos heb fynd ag ef i'r llys, ac wedyn negodi â'r partïon ac ar eu rhan.

Yn yr un modd â setliadau drwy gyfryngu a phenderfyniadau gan gyflafareddwr, byddai angen cael gorchymyn llys ar unrhyw gytundeb a geir er mwyn gallu ei orfodi.

- **Negodi gan gyfreithwyr:** Bydd cyfreithwyr yn ceisio cael cytundeb heb fynd â'r achos i'r llys. Yn y cyswllt hwn, gellir cyflogi'r cyfreithwyr i negodi ar ran eu cleientiaid, fel na fydd y partïon yn yr anghydfod yn gorfod ymwneud â'i gilydd yn uniongyrchol. Yn yr un modd â'r mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod a drafodwyd, ni fydd unrhyw gytundeb yn rhwymol o dan y gyfraith a byddai angen cael gorchymyn llys.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 6:** Allwch chi rannu unrhyw brofiad neu dystiolaeth ychwanegol o gyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys o wledydd eraill a'r gwersi a ddysgwyd o hynny?

**Cwestiwn 7:** Ym mha ffordd y dylai'r cyfarfod 'MIAM' cyn cyfryngu o dan y model arfaethedig hwn fod yn wahanol i'r MIAM presennol?

**Cwestiwn 8:** Beth ddylai gael ei gyfrif yn "ymdrech resymol i gyfryngu"? A ddylid canolbwyntio ar nifer y sesiynau cyfryngu, yr amser a gymerwyd, agwedd y person at gyfryngu neu a oes posibiliadau eraill?

**Cwestiwn 9:**

a) Ydych chi'n cytuno y dylai ceisiadau brys, amgylchiadau o ran amddiffyn plentyn (sydd wedi'u nodi yn yr esemptiad presennol rhag MIAM), ac achosion lle mae tystiolaeth benodedig o gam-drin domestig, gael eu hesemptio rhag ymdrech i gyfryngu cyn mynd i'r llys?
   - Ydw
   - Nac ydw
   - Ddim yn gwybod

Nodwch resymau dros eich ateb

b) Pa amgylchiadau a ddylai gael eu hystyried yn rhai brys, yn eich barn chi?

**Cwestiwn 10:** Os ydych chi'n credu y dylai amgylchiadau eraill fod yn esempt, beth yw'r rhain, a pham?

**Cwestiwn 11:** Sut y dylid asesu esemptiadau rhag y gofyniad gorfodol am gyfryngu a phwy a ddylai eu hasesu (h.y., barnwyr/cynghorwyr cyfreithiol ynadon neu gyfryngwyr)? A yw'ch ateb yn wahanol yn ôl y math o esemptiad?

**Cwestiwn 12:** Beth yw'ch barn ynghylch darparu ar gyfer talu holl gostau cyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys ar gyfer ceisiadau am rwymedi ariannol?

**Cwestiwn 13:** A yw cynllun achredu presennol yr FMC yn darparu'r mesurau diogelu sydd eu hangen neu a oes angen rheoleiddio ychwanegol?

- Ydy
- Nac ydy – mae angen rheoleiddio ychwanegol
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 14:** Os ydych chi'n credu bod angen rheoleiddio ychwanegol, pam ac i ba bwrpas?

**Cwestiwn 15:**

a) A ddylid ehangu'r gofyniad am gyfryngu cyn mynd i'r llys i gynnwys ymdrechion rhesymol i ddefnyddio mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR), neu a ddylai fod yn gymwys i gyfryngu yn unig?
   - Cyfryngu yn unig
   - Mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)
   - Ddim yn gwybod

   Eglurwch eich ateb

b) Beth yw'r manteision a'r anfanteision o ehangu'r gofyniad?

c) Os oeddech wedi rhoi 'mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)' yn ateb i gwestiwn 15a, pa fathau eraill o NCDR y dylai ei gynnwys?

d) Os oeddech wedi rhoi 'mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)' yn ateb i gwestiwn 15a, pa fframweithiau achredu/rheoleiddio a geir ar gyfer mathau eraill o NCDR a allai helpu pobl i setlo anghydfodau teuluol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i achosion plant cyfraith breifat ac achosion rhwymedi ariannol?

e) Os yw'r gofyniad yn gymwys i gyfryngu yn unig, a ddylai'r ffaith bod dull arall o ddatrys anghydfod wedi'i gyflawni fod yn rhywbeth sy'n arwain at esemptio rhag y gofyniad i roi cynnig ar gyfryngu?

**Cwestiwn 16:** Beth yw'r ffordd orau i warchod rhag camddefnyddio'r broses datrys anghydfodau cyn mynd i'r llys gan y partïon:

(i) a ddylid rhoi pŵer i'r llys i'w gwneud yn ofynnol i'r partïon eu hegluro eu hunain

(ii) pa bwerau y dylai'r llys eu cael er mwyn penderfynu a yw parti wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu, er enghraifft wrth ystyried gorchmynion costau posibl?

# Pennod 4 – Atebolrwydd, Gorfodi a Ffioedd

Yn y bennod hon, rydym yn gofyn am farn ynghylch:

a. **Porthgadw a gorfodi**
   Sut a pha bryd y bydd y dystiolaeth o blaid hawliad am esemptio yn cael ei hystyried, ac a fydd y llys yn gallu gorchymyn partïon i ddychwelyd i gymryd rhan mewn cyfryngu.

b. **Gorchmynion costau**
   Sut y gellid defnyddio gorchmynion costau i ategu gofynion am gyfryngu ac i gymell pobl i beidio â chychwyn achosion llys yn ddiangen yn dilyn cyfryngu neu i beidio â gorymestyn achosion llys unwaith y byddant wedi cyrraedd y llys.

c. **Strwythur ffioedd**
   Sut mae'r ffioedd llys sy'n daladwy i wneud cais i'r llys yn effeithio ar gymhelliant pobl i roi cynnig ar gyfryngu.

## Cefndir a'r sefyllfa bresennol

Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad i gyfryngu, ond mae gofyniad i gymryd rhan mewn MIAM cyn gwneud cais i'r llys[67] ac mae gwahanol ffyrdd i gymell teuluoedd i roi cynnig ar gyfryngu neu ddulliau eraill o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys. Mae ffyrdd gan y llys hefyd i ddal partïon yn atebol am beidio â chymryd rhan mewn MIAM neu, mewn rhai amgylchiadau, am wrthod yn afresymol â chymryd rhan mewn dull o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys.

Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, mae dyletswydd ar y llys ar hyn o bryd i ystyried, ar bob cam yn yr achos, a yw datrys yr anghydfod y tu allan i'r llys yn briodol. Rhaid i'r llys ystyried tri mater penodol – a yw MIAM wedi digwydd, a hawliwyd esemptiad rhag MIAM yn ddilys neu a gadarnhawyd esemptiad gan gyfryngwr ac a oedd y partïon wedi rhoi cynnig ar gyfryngu neu fath arall o ddull datrys anghydfodau y tu allan i'r llys a beth oedd canlyniad y broses honno.[68] Pan fydd y llys o'r farn bod datrys yr anghydfod y tu allan i'r llys yn briodol, mae ganddo bŵer i ohirio'r achos am gyfnod penodedig i ganiatáu i'r partïon gael gwybodaeth a chyngor am ddatrys yr anghydfod y tu allan i'r llys ac ystyried y posibilrwydd hwnnw. Mae pŵer y llys i ohirio achos (h.y., atal gweithrediadau'r llys am

67 Adran 10 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, ynghyd â Rhan 3 o'r Rheolau Trefniadaeth Teulu a Chyfarwyddyd Ymarfer 3A.

68 Rheol Trefniadaeth Teulu 3.3. FPR 2010 - PART 3 - NON-COURT DISPUTE RESOLUTION (justice.gov.uk) and PRACTICE DIRECTION 3A – FAMILY MEDIATION INFORMATION AND ASSESSMENT MEETINGS (MIAMS) (justice.gov.uk)

gyfnod) hefyd yn gallu rhoi cyfle i ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys lle mae'r partïon yn cytuno ar hynny.[69]

Bydd y llys hefyd yn ystyried a yw esemptiad rhag MIAM wedi'i hawlio'n gywir. Unwaith y bydd cais wedi'i gyflwyno, gall y llys ofyn am dystiolaeth i ategu hawliad am esemptiad rhag y gofyniad am MIAM un ai pan gyflwynir y cais gyntaf neu yn y gwrandawiad cyntaf – ond gall y gwrandawiad cyntaf gael ei gynnal wythnosau, a misoedd weithiau, ar ôl cael y cais. Cafwyd mewnbwn anecdotaidd sy'n awgrymu bod rhai achosion wedi mynd yn eu blaen heb ystyried neu herio esemptiadau, yn aml ar y sail bod llysoedd yn awyddus i ddod i benderfyniad er mwyn y plant sy'n gysylltiedig.[70] Rydym hefyd yn deall bod llysoedd yn aml yn amharod i ohirio achosion lle gellid setlo ar drefniadau pan fydd y partïon yn bresennol mewn gwrandawiad cyntaf neu ail wrandawiad (a'u troi'n orchymyn llys bryd hynny). Nodwyd hefyd mewn achos diweddar yn y Llys Apêl nad oedd esemptiad wedi'i hawlio'n gywir ac nad oedd wedi'i wirio gan y llys, a'i bod yn 'anffodus' nad oedd y partïon wedi cymryd rhan yn yr MIAM gan y byddai wedi bod yn bosibl datrys rhai materion 'yn gyflym'.[71]

Mae disgresiwn eang gan y llys hefyd i orchymyn i un parti dalu 'costau' y parti arall h.y., y costau am yr achos a oedd wedi'u hysgwyddo gan y parti arall, fel costau cynrychiolaeth gyfreithiol a ffioedd llys, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau (gorchymyn costau).[72] Mae costau o'r fath hefyd yn gallu cynnwys costau datrys anghydfod y tu allan i'r llys mewn amgylchiadau penodol, ac felly mae'r pŵer hwn ar gael mewn egwyddor i helpu i gymell pobl i geisio cytuno ar drefniadau y tu allan i'r llys. Anaml y defnyddir y pŵer i orchymyn talu costau mewn achosion plant. Ar y cyfan, mae llysoedd wedi bod yn amharod i wneud gorchymyn am gostau mewn achosion plant oherwydd gallai hynny greu'r perygl o gynyddu tensiynau a chymell rhieni/gofalwyr i beidio â cheisio'r hyn y maent yn ei weld yn fudd pennaf i'r plentyn.[73]

Y man cychwyn mewn achosion am rwymedi ariannol yw na fydd y llys yn gwneud gorchymyn costau. Fodd bynnag, fe ellir ei wneud os yw'r llys yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny, ar unrhyw gam yn yr achos, oherwydd ymddygiad parti yn yr achos (cyn neu yn ystod yr achos). Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhaid i'r llys gymryd nifer o ffactorau i ystyriaeth, yn cynnwys unrhyw gynnig a wnaed i setlo'r achos, a'r effaith

---

69 Rheol 3.4(1) FPR 2010 - PART 3 - NON-COURT DISPUTE RESOLUTION (justice.gov.uk)

70 Er enghraifft, gweler https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2020/04/PRIVATE-LAW-WORKING-GROUP-REPORT-1.pdf

71 K v K, [2022] EWCA Civ 468

72 Adran 51 o Ddeddf Uwchlysoedd 1981 (legislation.gov.uk), a PART 28 - COSTS (justice.gov.uk) Mae Rheol 28.1 yn darparu y caiff y llys "at any time make such order as to costs as it thinks just". Mae Rheol 28.3 yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud yn benodol ag achosion am rwymedi ariannol.

73 Gweler er enghraifft *R v R (Costs: Child case)* [1997] 2 FLR 95 (CA).

ariannol o unrhyw orchymyn costau ar y partïon. Mae gorchmynion costau yn fwy cyffredin mewn achosion am rwymedi ariannol nag mewn achosion plant.

## Beth ellid delio ag ef drwy weithredu gan lywodraeth

**Gorchmynion costau:** Rydym yn awyddus i weld llysoedd yn defnyddio gorchmynion costau mewn achosion priodol i ddal pobl yn atebol os na fyddant yn gwneud ymdrech resymol i gyfryngu neu os byddant yn delio â mater yn afresymol. Rydym yn cynnig y dylid gwneud mwy o ddefnydd o orchmynion costau mewn achosion priodol, yn y tymor byr a hefyd ar ôl cyflwyno'r gofyniad i gyfryngu sydd wedi'i ddisgrifio ym Mhennod 3.

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi gofyn i'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu adolygu'r Rheolau Trefniadaeth Teulu ar ddefnyddio gorchmynion costau. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu lansio ei ymgynghoriad ei hun ar y materion hyn a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2023.

Rydym hefyd yn bwriadu gwneud newidiadau yn y fframwaith cyfreithiol i gynyddu'r defnydd o orchmynion costau ac i'w gwneud yn gliriach bod rhaid i'r ddau barti mewn anghydfod cyfraith teulu breifat wneud ymdrech resymol i gyfryngu, neu ddod i gytundeb fel arall y tu allan i'r llys (lle y bo'n briodol), neu wynebu canlyniadau ar ffurf gorchmynion costau. Gallai hyn gynnwys costau cyfreithiol, ffi'r cais, a chostau unrhyw ymgais i ddatrys yr anghydfod y tu allan i'r llys fel cyfryngu. Hefyd gallai gynnwys gorchymyn ar wahân am adennill costau'r wladwriaeth, er enghraifft costau cyfryngu a ariannwyd gan y wladwriaeth.

Rydym am sicrhau bod gorchmynion costau ar gael i'w defnyddio gan y llys mewn nifer o sefyllfaoedd. Yn gyntaf, dylai llysoedd ystyried gwneud gorchmynion costau yn erbyn y person sy'n ymateb i'r cais (yr atebydd) lle nad yw wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu cyn dod i'r llys heb gael esemptiad dilys. Mewn achosion o'r fath, bydd y parti arall wedi gallu gwneud cais i'r llys (fel y nodwyd ym Mhennod 3), ond bydd yr atebydd yn wynebu'r perygl o gael gorchymyn costau yn ei erbyn ar ddiwedd yr achos os na fydd wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu ac yn enwedig os na fydd yn gwneud ymdrech resymol i gyfryngu wedi i'r achos ddechrau.

Dylai llysoedd hefyd ystyried gwneud gorchmynion costau yn erbyn ceiswyr a oedd heb roi cynnig ar gyfryngu cyn dod i'r llys ar sail esemptiad y mae'r llys yn canfod wedyn ei fod heb ei hawlio'n ddilys.

Os cafwyd gorchymyn i gyfryngu mewn achos gan y llys – un ai am fod esemptiad wedi'i hawlio'n annilys neu am fod yr achos wedi dod yn addas ar gyfer cyfryngu (gweler yr adran nesaf), yna dylai gorchmynion costau fod ar gael hefyd lle mae un parti heb wneud ymdrech resymol i gyfryngu bryd hynny.

Yn olaf, dylid hefyd ystyried gwneud gorchmynion costau lle mae'r llys yn penderfynu bod un parti wedi llusgo gweithrediadau'r llys ymlaen drwy wrthod derbyn cynnig rhesymol gan y parti arall yn yr achos.

Er hynny, rydym yn awyddus i osgoi sefyllfa lle defnyddir gorchmynion costau pan nad yw'r achos yn addas ar gyfer cyfryngu – fel achos lle mae amgylchiadau cam-drin domestig. Un sefyllfa bosibl yw honno lle mae'r cais yn rhan o batrwm o wneud ceisiadau i'r llys, neu'n arwydd bod patrwm o'r fath yn dechrau, gyda'r nod ym marn y llys o achosi patrwm o niwed neu ofid i'r person arall, neu fod yn rhan o batrwm o'r fath, yn cynnwys lle byddai'r achos yn gallu bod yn ffordd i barhau cam-drin domestig, a bod y parti arall hwnnw'n gwrthod cymryd rhan mewn cyfryngu un ai cyn neu yn ystod achos llys. Un sefyllfa bosibl arall yw honno lle mae parti sy'n graff yn ariannol yn defnyddio bygythiadau neu orfodaeth i bwyso ar y person arall i gytuno ar rywbeth drwy gyfryngu.

Er mwyn sicrhau bod gorchmynion costau yn cael eu defnyddio mewn achosion priodol, credwn fod rhaid parhau i gynnwys disgresiwn barnwrol mewn unrhyw gamau i gryfhau'r dull o weithredu drwy ddeddfu, fel y bydd barnwr yn gallu asesu holl amgylchiadau'r achos, yn cynnwys addasrwydd yr anghydfod ar gyfer cyfryngu, y berthynas rhwng y partïon a'r hanes o geisiadau ac achosion llys.

Rydym yn ymwybodol bod y defnydd o orchmynion costau mewn achosion plant cyfraith teulu breifat wedi bod yn gyfyngedig yn hanesyddol, a'i fod yn parhau felly. Y prif reswm am hyn yw bod perygl iddynt gynyddu tensiynau sy'n gallu effeithio ar y plentyn/plant, cymell rhieni/gofalwyr i beidio â cheisio'r hyn sydd er y budd pennaf i'r plentyn yn eu barn nhw, a lleihau'r arian sydd ar gael o fewn y teulu gan beri niwed i'r plentyn.[74] Bydd yr ystyriaethau hyn yn parhau'n ddilys mewn nifer fawr o achosion. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth am yr effaith ar les plant o brofi gwrthdaro dros gyfnod hir[75] credwn y byddai gorchmynion costau yn gallu bod yn ffordd ddefnyddiol i gymell rhieni/gofalwyr i geisio dod i gytundeb yn fuan, drwy gefnogi'r gofyniad i gyfryngu, ac felly y byddai'r defnydd cynyddol ohonynt yn gallu hyrwyddo'r budd pennaf i'r plentyn/plant.

**Pwerau llysoedd i gyfarwyddo partïon i ddychwelyd i gyfryngu a phorthgadw:** Rydym am roi pŵer i'r llys i gyfarwyddo partïon i wneud ymdrech resymol i gyfryngu. Gallai'r llys ddefnyddio'r pŵer hwn mewn nifer o amgylchiadau. Yn gyntaf, gallai orchymyn i bartïon wneud ymdrech resymol i gyfryngu lle nad oeddent wedi cymryd rhan mewn cyfryngu cyn dod i'r llys, un ai am fod yr atebydd wedi gwrthod gwneud hynny, am fod esemptiad wedi'i hawlio'n annilys, neu am fod esemptiad wedi'i hawlio'n ddilys ond bod yr amgylchiadau wedi newid (er enghraifft, os yw mater a oedd yn un brys ar y dechrau wedi cael sylw). Fel y trafodwyd uchod, os bydd un parti nad yw wedyn yn gwneud ymdrech resymol i gyfryngu, yn groes i orchymyn y llys, gallai'r llys ystyried gwneud gorchymyn

[74] *R v R (Costs: Child case)* [1997] 2 FLR 95 (CA).

[75] Fel y trafodwyd yn y cyflwyniad

costau yn ei erbyn. Rydym yn gofyn am farn ynghylch y cynnig hwn ac ynghylch sut byddai llys yn penderfynu a oedd partïon wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu.

## Ffioedd

**Cefndir a'r sefyllfa bresennol**
Mae'r rhan fwyaf o geisiadau mewn achosion plant cyfraith breifat yn dechrau drwy dalu ffi sengl o £232 gan y ceisydd ar ddechrau'r achos. Mae swm ffi'r cais wedi newid dros amser i ddarparu ar gyfer chwyddiant ond nid yw wedi newid mewn termau real er 2008. Yn dilyn talu'r ffi, bydd y llys yn gweinyddu'r achos ac yn dod i ganlyniad, ac mae'r broses hon yn debygol o gynnwys nifer o wrandawiadau o dan arweiniad barnwr. Bydd y ffi yn cael ei gostwng neu'n peidio â chael ei chodi yn achos y rheini sydd â lefelau isel o incwm a chynilion (o dan gynllun a elwir yn "Help i Dalu Ffioedd").

Fodd bynnag, nid yw ffi'r llys erioed wedi dod yn agos at dalu cost arferol achos cyfraith breifat. Yn ôl ein hamcangyfrif diweddaraf o'r gost i'r wladwriaeth am gais cyfraith breifat, dim ond oddeutu 20% o gostau'r system cyfraith breifat sy'n cael ei adennill drwy godi ffioedd llys – telir am y gweddill drwy drethiant cyffredinol. Mae'r lefel hon o adennill costau yn bell o'r arfer safonol sydd wedi'i argymell yng nghanllawiau Trysorlys EF (*Managing Public Money*) sy'n datgan y dylid ceisio adennill 100% o'r costau fel arfer drwy ffioedd a thaliadau.

Byddai cost ffi'r llys yn gallu cymharu'n anffafriol hefyd â chost dulliau eraill o ddatrys anghydfodau, fel cyfryngu. Gallai hyn arwain at brisio'r dewisiadau hyn allan o'r farchnad. Fel y nodwyd mewn penodau cynharach, barn y Llywodraeth yw bod y dulliau eraill hyn o gytuno ar drefniadau yn rhai a fyddai wedi bod yn fwy addas i nifer mawr o deuluoedd wrth ddatrys y materion dan sylw ac wedi lleihau'r effaith o brofi gwrthdaro dros gyfnod hir ar unrhyw blant sy'n gysylltiedig.

Mae'r system cyfiawnder teulu wedi newid yn sylweddol hefyd er 2008. Nodwyd rhai o'r newidiadau hyn yn yr ymgynghoriad hwn, fel y diwygiadau i gymorth cyfreithiol yn 2012 a chyflwyno'r Rhaglen Trefniadau Plant yn 2014. Yn yr ymgynghoriad hwn, cynigir rhagor o ddiwygiadau pellgyrhaeddol i'r broses er mwyn cymell partïon i gymryd rhan mewn rhaglenni magu plant ar y cyd a chyfryngu cyn dod i'r llys. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddar ar ddiwygio'r cynllun Help i Dalu Ffioedd er mwyn sicrhau bod ffioedd yn fforddiadwy i'r rheini sydd ar incwm isel. Yn wyneb yr holl newidiadau hyn, mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bryd ystyried a yw lefel ffi'r llys yn sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cynnal mynediad at gyfiawnder, lleihau'r baich ar ysgwyddau'r trethdalwr cyffredinol, a chymell defnyddio dulliau eraill o leihau gwrthdaro heblaw'r llys.

**Beth ellid delio ag ef drwy weithredu gan lywodraeth**
Mae'r Llywodraeth yn adolygu'r strwythur ffioedd yn y llys teulu ar hyn o bryd. Ar gyfer achosion plant cyfraith breifat, mae hyn yn golygu ystyried a yw ffi'r cais o £232 yn

sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cynnal mynediad at gyfiawnder; sicrhau adnoddau ar gyfer system llysoedd sy'n effeithiol ac effeithlon; a chymell y defnydd o ddulliau eraill o ddatrys anghydfodau lle mae hynny'n addas. Byddwn yn cyflwyno cynigion maes o law, gan gymryd canlyniad yr ymgynghoriad hwn i ystyriaeth.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 17:** Sut byddai system fwy cadarn o orchmynion costau yn gallu cymell partïon mewn achosion llys i beidio ag osgoi ymdrechion rhesymol i gyfryngu cyn dod i'r llys neu ar ôl gwneud cais ac i beidio ymestyn achos yn ddiangen? A ddylai barnwyr barhau i gael disgresiwn i benderfynu pa bryd i wneud y gorchmynion hyn a pha gostau penodol i'w cynnwys?

**Cwestiwn 18:** Unwaith y bydd achos wedi dod i mewn i'r system llysoedd, a ddylai'r llys gael y pŵer i orchymyn partïon i wneud ymdrech resymol i gyfryngu e.e., os yw'r amgylchiadau wedi newid ac nad yw esemptiad a hawliwyd o'r blaen yn berthnasol bellach? A oes gennych chi farn am yr amgylchiadau lle dylai hyn fod yn gymwys?

**Cwestiwn 19:** Pa ran a ddylai fod i ffioedd llys wrth gynnal amcanion cyffredinol y system cyfiawnder teulu yn eich barn chi? A ddylai fod yn ofynnol i bartïon gyfrannu mwy at gostau'r gwasanaeth llys y maent yn ei ddefnyddio?

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 1:** Ydych chi o blaid cyflwyno gofyniad gorfodol i rieni sy'n gwahanu (ac eraill fel neiniau a theidiau) gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd, os ydyn nhw a'u hamgylchiadau'n cael eu hystyried yn addas ac yn amodol ar yr un esemptiadau â'r rheini ar gyfer o gofyniad am gyfryngu (gweler Pennod 3), cyn iddynt allu gwneud cais i'r llys am orchymyn trefniadau plentyn neu orchymyn plant arall?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Nodwch resymau dros eich ateb

**Cwestiwn 2:** Os ydych chi o blaid hyn, a ydych chi o blaid ei wneud yn ofynnol cyn gallu dechrau cyfryngu?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Nodwch resymau dros eich ateb

**Cwestiwn 3:** A ddylid darparu gwybodaeth am broses y llys (gwybodaeth gyfreithiol heb ei theilwrio) i'r rheini sydd mewn anghydfod cyfraith teulu breifat:

- yn y cyfarfod asesu a gwybodaeth am gyfryngu (MIAM)
- yn y rhaglen magu ar y cyd
- drwy ddull ar-lein
- drwy unrhyw ddull arall (noder)

Nodwch resymau dros eich ateb

**Cwestiwn 4:** Ar sail yr adnoddau ar-lein presennol, beth yw'ch barn am ddarparu offeryn ar-lein gan y llywodraeth i helpu rhieni, gofalwyr ac efallai plant sydd â rhan mewn achosion trefniadau plant? Pa wybodaeth ac adnoddau y dylid rhoi blaenoriaeth i'w darparu drwy unrhyw offeryn o'r fath i helpu teuluoedd i ddatrys materion yn gynharach?

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n credu ei bod yn briodol i gyfryngwyr benderfynu'r addasrwydd i gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd mewn cyfarfod i ddarparu gwybodaeth?

- Ydw
- Nac ydw

- Ddim yn gwybod

Nodwch resymau dros eich ateb

**Cwestiwn 6:** Allwch chi rannu unrhyw brofiad neu dystiolaeth ychwanegol o gyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys o wledydd eraill a'r gwersi a ddysgwyd o hynny?

**Cwestiwn 7:** Ym mha ffordd y dylai'r cyfarfod 'MIAM' cyn cyfryngu o dan y model arfaethedig hwn fod yn wahanol i'r MIAM presennol?

**Cwestiwn 8:** Beth ddylai gael ei gyfrif yn "ymdrech resymol i gyfryngu"? A ddylid canolbwyntio ar nifer y sesiynau cyfryngu, yr amser a gymerwyd, agwedd y person at gyfryngu neu a oes posibiliadau eraill?

**Cwestiwn 9:**

a) Ydych chi'n cytuno y dylai ceisiadau brys, amgylchiadau o ran amddiffyn plentyn (sydd wedi'u nodi yn yr esemptiad presennol rhag MIAM), ac achosion lle mae tystiolaeth benodedig o gam-drin domestig, gael eu hesemptio rhag ymdrech i gyfryngu cyn mynd i'r llys?
   - Ydw
   - Nac ydw
   - Ddim yn gwybod

Nodwch resymau dros eich ateb

b) Pa amgylchiadau a ddylai gael eu hystyried yn rhai brys, yn eich barn chi?

**Cwestiwn 10:** Os ydych chi'n credu y dylai amgylchiadau eraill fod yn esempt, beth yw'r rhain, a pham?

**Cwestiwn 11:** Sut y dylid asesu esemptiadau rhag y gofyniad gorfodol am gyfryngu a phwy a ddylai eu hasesu (h.y., barnwyr/cynghorwyr cyfreithiol ynadon neu gyfryngwyr)? A yw'ch ateb yn wahanol yn ôl y math o esemptiad?

**Cwestiwn 12:** Beth yw'ch barn ynghylch darparu ar gyfer talu holl gostau cyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys ar gyfer ceisiadau am rwymedi ariannol?

**Cwestiwn 13:** A yw cynllun achredu presennol yr FMC yn darparu'r mesurau diogelu sydd eu hangen neu a oes angen rheoleiddio ychwanegol?

- Ydy
- Nac ydy – mae angen rheoleiddio ychwanegol
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 14:** Os ydych chi'n credu bod angen rheoleiddio ychwanegol, pam ac i ba bwrpas?

**Cwestiwn 15:**

a) A ddylid ehangu'r gofyniad am gyfryngu cyn mynd i'r llys i gynnwys ymdrechion rhesymol i ddefnyddio mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR), neu a ddylai fod yn gymwys i gyfryngu yn unig?

- Cyfryngu yn unig
- Mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)
- Ddim yn gwybod

Eglurwch eich ateb

b) Beth yw'r manteision a'r anfanteision o ehangu'r gofyniad?

c) Os oeddech wedi rhoi 'mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)' yn ateb i gwestiwn 15a, pa fathau eraill o NCDR y dylai ei gynnwys?

d) Os oeddech wedi rhoi 'mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)' yn ateb i gwestiwn 15a, pa fframweithiau achredu/rheoleiddio a geir ar gyfer mathau eraill o NCDR a allai helpu pobl i setlo anghydfodau teuluol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i achosion plant cyfraith breifat ac achosion rhwymedi ariannol?

e) Os yw'r gofyniad yn gymwys i gyfryngu yn unig, a ddylai'r ffaith bod dull arall o ddatrys anghydfod wedi'i gyflawni fod yn rhywbeth sy'n arwain at esemptio rhag y gofyniad i roi cynnig ar gyfryngu?

**Cwestiwn 16:** Beth yw'r ffordd orau i warchod rhag camddefnyddio'r broses datrys anghydfodau cyn mynd i'r llys gan y partïon:

(i) a ddylid rhoi pŵer i'r llys i'w gwneud yn ofynnol i'r partïon eu hegluro eu hunain

(ii) pa bwerau y dylai'r llys eu cael er mwyn penderfynu a yw parti wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu, er enghraifft wrth ystyried gorchmynion costau posibl?

**Cwestiwn 17:** Sut byddai system fwy cadarn o orchmynion costau yn gallu cymell partïon mewn achosion llys i beidio ag osgoi ymdrechion rhesymol i gyfryngu cyn dod i'r llys neu ar ôl gwneud cais ac i beidio ymestyn achos yn ddiangen? A ddylai barnwyr barhau i gael disgresiwn i benderfynu pa bryd i wneud y gorchmynion hyn a pha gostau penodol i'w cynnwys?

**Cwestiwn 18:** Unwaith y bydd achos wedi dod i mewn i'r system llysoedd, a ddylai'r llys gael y pŵer i orchymyn partïon i wneud ymdrech resymol i gyfryngu e.e., os yw'r amgylchiadau wedi newid ac nad yw esemptiad a hawliwyd o'r blaen yn berthnasol bellach? A oes gennych chi farn am yr amgylchiadau lle dylai hyn fod yn gymwys?

**Cwestiwn 19:** Pa ran a ddylai fod i ffioedd llys wrth gynnal amcanion cyffredinol y system cyfiawnder teulu yn eich barn chi? A ddylai fod yn ofynnol i bartïon gyfrannu mwy at gostau'r gwasanaeth llys y maent yn ei ddefnyddio?

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod bod eich ymateb wedi ein cyrraedd, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Ydych chi'n fodlon i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnwys y sefydliad rydych yn gysylltiedig ag ef mewn rhestr gyhoeddus o ymatebwyr i'r ymgynghoriad?**

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 15 Mehefin 2023 at:

**Y Tîm Polisi Cyfiawnder Teulu**
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost**: privatefamilylawconsultation@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost i privatefamilylawconsultation@justice.gov.uk.

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth

(sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin y wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â rhwymedigaethau o ran cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai o gymorth pe baech yn esbonio pam rydych o'r farn bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo'i hun, yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partïon.

# Asesiad o’r Effaith, Cydraddoldebau a’r Iaith Gymraeg

## Asesiad o’r effaith

Lluniwyd Asesiad o’r Effaith a chaiff ei gyhoeddi ar wahân gyda’r papur hwn.

## Cydraddoldebau

**Crynodeb o’r cynigion polisi**

1. Mae’r ymgynghoriad hwn ar Gyfraith Teulu Breifat yn ystyried sut y gallwn gynorthwyo teuluoedd i gytuno ar drefniadau plentyn ac ar drefniadau ariannol pan fydd rhieni neu gyplau yn gwahanu.

2. Gelwir y ddogfen ymgynghori yn Bapur Gwyn – mae’r dogfennau hyn yn cael eu cynhyrchu gan y Llywodraeth gyda’r nod o ganiatáu i bobl y tu mewn a’r tu allan i’r Senedd roi adborth ar gynigion.

3. Mae’r ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau o dan dair prif thema:
    a. **Cynorthwyo rhieni i ddatrys materion:** Byddwn yn ymgynghori ar ba adnoddau, canllawiau neu gymorth y gall y llywodraeth eu darparu a fydd, mewn achosion priodol, yn helpu mwy o deuluoedd sy’n gwahanu i ddatrys anghydfodau heb droi at y llys. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar gyflwyno gofyniad i rieni/gofalwyr gymryd rhan mewn rhaglen magu plant ar y cyd, lle credir bod hynny’n addas.
    b. **Cytuno ar drefniadau plant a threfniadau ariannol drwy gyfryngu:** Byddwn yn ymgynghori ar gyflwyno gofyniad gorfodol i gyfryngu cyn mynd i’r llys ac ar ba ffurf y gallai hyn fod ar gyfer rhieni sy’n gwahanu ac eraill na allant gytuno ar drefniadau plentyn neu drefniadau ariannol. Byddwn yn ymgynghori gan ofyn ym mha amgylchiadau y dylai’r gofyniad hwn fod yn gymwys. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar sut i baratoi’r sector cyfryngu, gan ofyn am farn ynghylch pa gamau sydd angen eu cymryd i dyfu’r sector ac a oes angen hyfforddiant a threfniadau achredu ychwanegol.
    c. **Atebolrwydd a chostau mewn achosion llys:** Byddwn yn ymgynghori ar y ffordd y gellid defnyddio gorchmynion costau i orfodi’r gofyniad i gyfryngu ac i gymell rhieni/gofalwyr i beidio ag ymestyn achos llys yn ddiangen os byddant yn dod i’r llys. Byddwn hefyd yn gofyn am farn ynghylch sut y gallem wella’r strwythur ffioedd fel eu bod yn cyfateb yn well i’r costau o ddod i’r llys ac yn dileu datgymhellion i bobl sy’n ceisio datrys anghydfod y tu allan i’r llys.

**Dyletswyddau Cydraddoldeb**

4. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) wedi'i nodi yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae DCSC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:
   a. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a mathau eraill o ymddygiad a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
   b. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig a'r rheini nad ydynt yn rhannu nodwedd gwarchodedig; ac
   c. Meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

5. Y nodweddion gwarchodedig yw oed, anabledd, partneriaeth sifil, ethnigrwydd, ailbennu rhywedd, priodas, beichiogrwydd a mamolaeth, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

6. Yn y ddogfen ymgynghori rydym wedi gofyn i ymatebwyr am eu barn ac am dystiolaeth o effeithiau eraill ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn gyson â'r ystyriaethau o ran DCSC (gweler yr adran 'Ystyriaethau o ran Cydraddoldeb).

**Gwahaniaethu uniongyrchol**

7. Rydym o'r farn nad yw'r cynigion yn yr ymgynghoriad ar Gyfraith Teulu Breifat i gynorthwyo rhieni i ddatrys materion y tu allan i'r llys, drwy gyfryngu, yn rhai sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol gan y byddai'r cynigion yn gymwys i'r un graddau i'r rheini beth bynnag oedd eu nodweddion gwarchodedig. Nid ydym yn credu y byddai'r newid hwn yn peri bod oedolion, plant, cyflogeion a chyfryngwyr yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu nodweddion gwarchodedig gan y byddai unrhyw gynigion a wneir yn y dyfodol ar sail y dystiolaeth a geir yn ceisio cryfhau'r broses a'r cymorth i deuluoedd sy'n datrys trefniadau plant, beth bynnag fo'r nodwedd gwarchodedig.

**Gwahaniaethu anuniongyrchol**

8. Rydym wedi ystyried gwahaniaethu anuniongyrchol ac a fyddai cynigion yn yr ymgynghoriad ar Gyfraith Teulu Breifat yn debygol o beri anfantais benodol i oedolion, plant, cyflogeion a chyfryngwyr sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig (yn cynnwys y rheini a nodwyd yn yr adran Tystiolaeth a Dadansoddiad) o gymharu â'r rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

9. Mae'r data yn yr adran tystiolaeth a dadansoddiad yn dangos bod nifer mwy ar gyfartaledd mewn achosion cyfraith teulu breifat o'r rheini sydd ag a) cefndir Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig gwyn, b) cefndir ethnig cymysg neu luosog ac yn enwedig dau o'r cefndiroedd ethnigrwydd cymysg, c) unrhyw gefndir ethnigrwydd cymysg neu luosog arall a d) cefndir cymysg gwyn a du Caribïaidd, ac e) y rheini sydd ag unrhyw gefndir ethnig arall o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Roedd nifer mwy ar gyfartaledd hefyd o blant a gafodd ddiagnosis ar y sbectrwm awtistig o gymharu â'r rheini yn y boblogaeth gyffredinol.

10. Mae'r dystiolaeth yn dangos hefyd fod nifer mwy o ddynion ar gyfartaledd yn geiswyr mewn achosion Cyfraith Teulu Breifat, a bod cyfran fwy o famau ymysg yr atebyddion.

11. Mae nifer mwy ar gyfartaledd hefyd o blant yn y grŵp oedran 5-10 mlwydd oed (o gymharu â grwpiau oedran plant eraill) mewn achosion Cyfraith Teulu Breifat.

12. Rydym yn credu y byddai ein cynigion yn gallu cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn am mai eu hamcan yw cynyddu'r gallu i ddatrys gwrthdaro yn gynharach a chynorthwyo teuluoedd i ddatrys trefniadau plant y tu allan i'r llys os yw hynny'n bosibl. Ar ôl rhoi ystyriaeth ddyladwy, credwn fod y cynigion yn ffordd gymesur i gyflawni ein nod dilys o gynorthwyo teuluoedd i ddatrys trefniadau plant pa un a oes unrhyw nodwedd gwarchodedig ganddynt neu beidio.

**Gwahaniaethu sy'n codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiad rhesymol**

13. Rydym yn cydnabod ei bod yn aros yn bwysig i ni barhau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion ag anableddau sydd mewn teulu sy'n ceisio cytuno ar drefniadau plant a threfniadau ariannol, er mwyn sicrhau bod cymorth priodol ar gael. Ein barn gychwynnol yw bod y sector cyfryngu a rhaglenni magu plant eisoes yn cymryd camau i sicrhau hygyrchedd i bobl sydd ag anableddau, fel camau i sicrhau bod cyfryngu ar gael ar-lein, ac ar yr amod bod y camau hyn yn parhau ac yn cael eu teilwrio ymhellach i gyd-fynd â'r cynigion newydd, na fydd anfanteision penodol i bobl sydd ag anableddau.

**Aflonyddu ac erledigaeth**

14. Nid ydym yn credu y bydd y meysydd newid sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad ar Gyfraith Teulu Breifat yn arwain at aflonyddu neu erledigaeth o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb, yn enwedig o ystyried ein bod yn cynnig esemptiadau rhag gofyniad i gyfryngu ar gyfer achosion lle ceir cam-drin domestig.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal**

15. Ystyriwyd sut mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy gwrdd ag anghenion oedolion, plant a chyflogeion sy'n rhannu nodwedd benodol, lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion y rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno.

16. Credwn y bydd yr ymgynghoriad ar Gyfraith Teulu Breifat yn fuddiol i'r holl deuluoedd drwy eu helpu i ddod i gytundebau'n fwy cyflym ac mewn ffordd lai gwrthwynebol, ac mae hyn yn golygu y bydd yn fuddiol i grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig penodol y ceir niferoedd ohonynt sy'n uwch na'r cyfartaledd mewn achosion o'r math hwn.

**Meithrin cysylltiadau da**

17. Rydym wedi ystyried yr amcan hwn i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a'r rheini nad ydynt yn rhannu nodweddion o'r fath.

Bydd cynigion yr ymgynghoriad ar Gyfraith Teulu Breifat yn cynorthwyo rhieni/gofalwyr i ddatrys materion y tu allan i'r llys. Mae'n debygol y ceir effaith gadarnhaol wrth feithrin cysylltiadau da drwy gwtogi anghydfodau hir rhwng rhieni/gofalwyr.

**Tystiolaeth a Dadansoddiad**

18. Rydym wedi edrych ar y data sydd ar gael yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) ac mewn ymchwil academaidd ehangach am nodweddion y plant, oedolion, a chyflogeion Cafcass. Mae'r data hyn yn dangos nodweddion unigolion mewn achosion cyfraith teulu breifat, ond nid ydynt yn ymwneud ag achosion trefniadau plant yn unig, er mai'r rhain yw mwyafrif yr achosion.[76]

**Oedolion**

19. Mae'r data hyn yn ymwneud ag oedolion a phlant dros y cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2017/18 a 2019/20. Dim ond data am oedolion a phlant ar y cyd sydd gennym. Yn yr adran isod ar blant, mae data ar wahân ar gyfer y flwyddyn 2020/21.

20. **Oed**: Roedd mwyafrif y mamau a thadau a oedd yn geiswyr yn rhai yn eu dau ddegau hwyr a'u tri degau, yn debyg i rieni yn y boblogaeth gyffredinol.[77]

21. **Anabledd:** Nid oes data ar gael am ddefnyddwyr llysoedd teulu cyfraith breifat yn Lloegr. Fodd bynnag, yng Nghymru mae prosiectau datrys anghydfodau teuluol, sy'n ymwneud â chyfryngu yn bennaf, wedi'i chael yn anodd ymgysylltu ag oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl neu ddibyniaeth. Mae ystadegau'n dangos bod nifer mwy o oedolion o'r fath ar gyfartaledd mewn achosion llys (Cusworth et al. (2021)[78]

22. **Ethnigrwydd:**
    a. **Cefndir Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig:** Mae nifer uwch ar gyfartaledd o oedolion a phlant â'r cefndir hwn mewn achosion cyfraith breifat (0.1%, 2017/18 i 2019/20) o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (<0.1%, amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol am 2019).[79]
    b. **Cefndir ethnig cymysg neu luosog:** Yn gyffredinol, mae nifer uwch ar gyfartaledd o oedolion a phlant â'r cefndiroedd ethnig hyn mewn achosion cyfraith breifat (6.3%, 2017/18 i 2019/20), sef tua thair gwaith a hanner yn fwy na'r gyfran yn y

---

[76] Cusworth, L. et al. (2021). Uncovering private family law: Who's coming to court in England? Summary. London: Nuffield Family Justice Observatory. nfjo_whos-coming-to-court_england_summary.pdf (nuffieldfjo.org.uk)

[77] nfjo_whos_coming_to_court_England_full_report_FINAL-1-.pdf (nuffieldfjo.org.uk)

[78] Cusworth, L. et al. (2021); Uncovering private family law: Adult characteristics and vulnerabilities (Wales). London: Nuffield Family Justice Observatory. Uncovering private family law: Adult characteristics and vulnerabilities (Wales) - Nuffield Family Justice Observatory (nuffieldfjo.org.uk)

[79] What do we know about ethnicity in the family justice system in England? - Nuffield Family Justice Observatory (nuffieldfjo.org.uk)

boblogaeth gyffredinol (1.9%, amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol am 2019).[80]

c. **Unrhyw gefndir ethnigrwydd cymysg neu luosog arall:** Roedd nifer uwch ar gyfartaledd o oedolion a phlant yn yr is-grŵp hwn o gefndiroedd ethnigrwydd cymysg mewn achosion cyfraith breifat (2.2%, 2017/18 i 2019/20), o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (0.5%, amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol am 2019).[81]

d. **Cefndir cymysg gwyn a du Caribïaidd:** Roedd cyfran yr oedolion a phlant yn yr is-grŵp hwn o gefndiroedd ethnigrwydd cymysg bron pedair gwaith yn fwy mewn achosion cyfraith breifat (1.9%, 2017/18 i 2019/20) nag yn y boblogaeth gyffredinol (0.5%, amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol am 2019).[82]

e. **Unrhyw gefndir ethnig arall:** Roedd nifer yr oedolion a phlant yn y grŵp hwn hefyd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd mewn achosion cyfraith preifat (2.2% 2017/18 i 2019/20), o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (1.5%, amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol am 2019).[83]

23. **Crefydd:** Dim data ar gael.

24. **Cyfeiriadedd rhywiol:** Dim data ar gael.

25. **Rhyw ac ailbennu rhywedd:** Mae achosion cyfraith breifat yn cael eu sbarduno gan geiswyr gwrywaidd yn bennaf, sef tadau amhreswyl fel arfer. Mae cyfran y ceisiadau safonol gan riant a gyflwynir gan dadau yn amrywio oddeutu 65% a 69% yn ystod y cyfnod 2010/11–2019/20.[84] Mae cyfran fwy o'r atebyddion mewn achosion Cyfraith Teulu Breifat yn famau. Nid oes data ar gael am ddefnyddwyr sydd wedi ymgymryd ag ailbennu rhywedd.

**Plant**

26. Rydym wedi adolygu data o adroddiad blynyddol Cafcass am 2021/22, sy'n cynnwys data am nodweddion gwarchodedig plant mewn achosion cyfraith teulu breifat. Nid yw'r rhain yn ymwneud ag achosion trefniadau plant yn unig, er bod y cais arweiniol mewn 89.5% o achosion cyfraith breifat yn ymwneud â threfniadau plant.[85]

---

80 What do we know about ethnicity in the family justice system in England? - Nuffield Family Justice Observatory (nuffieldfjo.org.uk)

81 What do we know about ethnicity in the family justice system in England? - Nuffield Family Justice Observatory (nuffieldfjo.org.uk)

82 What do we know about ethnicity in the family justice system in England? - Nuffield Family Justice Observatory (nuffieldfjo.org.uk)

83 What do we know about ethnicity in the family justice system in England? - Nuffield Family Justice Observatory (nuffieldfjo.org.uk)

84 nfjo_whos_coming_to_court_England_full_report_FINAL-1-.pdf (nuffieldfjo.org.uk)

85 Annual reports - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service (Annual Report and Accounts for 2021/22)

27. **Oed:** Yn 2021/22, roedd dwy ran o bump o'r plant roedd Cafcass wedi gweithio gyda nhw mewn achosion cyfraith breifat yn rhai 5–10 mlwydd oed. Mae hon yn gyfran fwy nag mewn achosion cyfraith gyhoeddus ac yn y boblogaeth gyffredinol.[86]

28. **Anabledd:** Yn adroddiad Cafcass am 2021/22, roedd 10.2% o blant y cofnodwyd un cyflwr neu anabledd yn unig ar eu cyfer ac roedd 1.3% y cofnodwyd nifer o gyflyrau neu anableddau ar eu cyfer[87]. O gymharu â data cenedlaethol a gasglwyd gan yr Adran Addysg am blant sydd â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal neu Angen Addysgol Arbennig, mae'r digwyddedd o ran anabledd yn is o lawer ymysg y plant roedd Cafcass wedi gweithio gyda nhw (8.1% o gymharu â 15.9% yn y data a gasglwyd gan yr Adran Addysg).[88] Mae'n ymddangos yn debygol bod y gwahaniaeth hwn yn ganlyniad i dangofnodi yn hytrach na gwir wahaniaeth o ran digwyddedd.
    a. O ran plant sydd ag **anhwylder ar y sbectrwm awtistig**, roedd 4.4% wedi bod yn rhan o achos cyfraith teulu breifat wrth weithio gyda Cafcass, sef canran is nag ar gyfer y boblogaeth gyfan (12.3%).[89]

29. **Ethnigrwydd:** Erbyn diwedd Mawrth 2022, roedd ethnigrwydd wedi'i gofnodi ar gyfer 86.6% o blant mewn achosion cyfraith breifat.[90]
    b. Unrhyw ethnigrwydd cymysg neu luosog arall: Mewn achosion cyfraith preifat, cyfran y plant sydd â'r cefndir ethnig hwn oedd 10.2% sydd yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth genedlaethol o blant, sef 5.2%.[91]

30. **Ailbennu rhywedd:** Dim data ar gael.

31. **Crefydd:** Dim data ar gael.

32. **Cyfeiriadedd rhywiol:** Dim data ar gael.

33. **Rhyw:** Ar gyfartaledd, mae ychydig yn fwy o fechgyn nag o ferched ymysg y plant mewn achosion cyfraith breifat. Mae hyn yn gyson â'r boblogaeth genedlaethol o blant

---

86 Annual reports - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service (Annual Report and Accounts for 2021/22)

87 Annual reports - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service (Annual Report and Accounts for 2021/22)

88 Annual reports - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service (Annual Report and Accounts for 2021/22)

89 Annual reports - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service (Annual Report and Accounts for 2021/22)

90 Annual reports - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service (Annual Report and Accounts for 2021/22)

91 Annual reports - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service (Annual Report and Accounts for 2021/22)

lle mae'r gymhareb rhwng bechgyn a merched yn fwy na 1:1 mewn oedrannau hyd at 25.[92]

**Barn ar sail y data**

34. Ar sail y data uchod, credwn y bydd yr ymgynghoriad ar Gyfraith Teulu Breifat yn effeithio ar fwy o oedolion a phlant mewn rhai grwpiau lleiafrifol ethnig a grwpiau oedran am fod mwy ohonynt ar gyfartaledd yn y system cyfraith teulu breifat. Credwn ei bod yn debygol y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar oedolion a phlant sydd â'r nodweddion gwarchodedig hyn am mai eu hamcan yw eu cynorthwyo i ddatrys trefniadau plentyn drwy ddulliau mwy priodol.

**Cyfyngiadau'r data**

35. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i gael gwybodaeth sy'n ymwneud â'r meysydd hyn sy'n destun i'r ymgynghoriad, mae bylchau'n aros yn ein sylfaen dystiolaeth. Nid yw'r holl nodweddion gwarchodedig wedi'u cofnodi ym mhob un o gofnodion Cafcass, felly mae'n bosibl nad oes gennym ddarlun cyflawn o nodweddion oedolion a phlant mewn achosion cyfraith teulu breifat. Er enghraifft, nid oes gennym fynediad at gofnodion o nodweddion demograffig sy'n ymwneud â chrefydd. Nid oeddem yn gallu canfod nodweddion gwarchodedig ymarferwyr yn y sector cyfryngu.

**Mae'n bwysig cael eich barn**

36. Byddwn yn falch o gael barn, profiadau a thystiolaeth arall gan ac ynghylch teuluoedd sy'n datrys trefniadau plant ac ymarferwyr yn y sector cyfryngu sydd â nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

## Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Trafodir yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr Asesiad o'r Effaith a gyhoeddir gyda'r papur hwn.

---

[92] Annual reports - Cafcass - Children and Family Court Advisory and Support Service (Annual Report and Accounts for 2021/22)

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E02769903

978-1-5286-3604-9